YR YMOFYNYDD.

RHIF 62.] HYDREF, 1852. [CYF. V.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

IOLO MORGANWG.

(*Parhad o Tudal* 203.)

YN yr olrheiniad hyn yr oedd llawer o waith rhodio; ac yr oedd y bardd yn gerddwr diflino. Cerddwr o galon oedd yr hen wr, a phwy erioed a'i gwelodd yn marchogaeth. Dadleuai yn wastad fod cerdded yn fwy naturiol a iachus nac un mynediad arall, ac hefyd yn fwy annibynol a rhydd oddiwrth ddamweiniau; a chan nad oedd yn aros yn hir mewn un lle, yn y rhan egniol o'i fywyd, y mae yn ddichonol iddo fyned dros fwy o filldiroedd na nemawr o'i gydoesolion. Aeth ar ei draed dros yr holl dywysogaeth yn ei ymchwiliadau, a daeth o hyd i lawer o ysgrifau gwerthfawr yn ystod ei daith. "Dywedodd wrthyf," medd Waring, "nad oedd yn cofio fod ar gefn ceffyl ond unwaith yn ei fywyd, a hynny oedd tra'r oedd o dre, pan glywodd fod ei dad mewn afiechyd peryglus, aeth ar *gallop* mewn unionglyrch tua thŷ ei dad, dros dir garw a mynyddig, gan gymmaint ei awydd am ymweled â'r claf; ond ni fu effeithiau ei yrfa mor bleserus i'w deimladau, a'i dueddu i fynnu march dan ei forddwyd eilwaith; ac er ei fod yn cadw ceffyl at ddibenion masnachol, ac er lles i'w deulu, ni wnaeth efe un ymdrech i fod yn farchog eilwaith. Etto yr oedd cyfeillach mawr rhwng y bardd a'r ceffyl; dilynai yr anifail ei feistr weithiau mor belled a Chaerdydd, fel y mae yn adnabyddus i Mr. Charles Vachell; talai'r bardd doll y clwydau yn hytrach na gwrthod i'w ganlyniedydd y pleser o'i gwmniaeth; ac ar ben y daith cefai dorth o fara am ei drafferth o law y bardd ei hun. Y mae rhai o deithiau yr hen fardd yn deilwng o adgofiant. Cerddodd unwaith ar ol boreu-fwyd cynnar i dref Bristol, saith milldir a deugain, heb ymborthi ar y ffordd; a dychwelodd drannoeth, ar ol bwyta boreu-fwyd ar lan Hafren, i yfed te yn Fleminston, wedi rhodio 94 o filldiroedd, heblaw

cyflawni ei orchwylion yn Bristol, mewn un awr ar bymtheg ar hugain; a dywedodd wrthyf nad oedd yn teimlo un llesgedd boreu trannoeth. Ar achlysur arall cerddodd 54 o filldiroedd o Rydychain i Lundain; aeth i siop llyfrwerthydd yn y lle olaf cyn fod prydnhawn wedi myned yn ddiwedydd; ac mewn attebiad i ofyniad, dywedodd ei fod wedi teithio o Rydychen yr un boreu. Amheuwyd hyn gan rai o'r gwyddfodolion; ond yn eu plith yr oedd un o hynodion yr oes, sef, Mr. James Stuart, golygydd un o newyddiaduron Llundain, a'r hwn o herwydd ei fod wedi crwydro ar draed dros ran fawr o'r byd, a gyfenwyd *Walking Stuart*. Gofynodd yr hen wr hwn i'r bardd gerdded ychydig o latheidiau o'i flaen ef; yna dywedodd Mr. Stuart y gallasai'r bardd gyflawni'r orchest, a chyfrifwyd y farn honno yn eithaf digonol."

Y gorchwyl nesaf a gymerodd mewn llaw oedd ymchwil amaethyddiaethol yn Neheubarth Cymru, yr hwn a gymerodd le yn y flwyddyn 1806-7. Crybwyllir am yr ymchwil hyn gan Mr. Waring, a chyda mwy o helaethrwydd gyda Mr. Malkin; ond gan fod un yn anghywir, a'r llall yn tueddu i greu camsyniadau, rhoddaf eu geiriau hwynt yn gyntaf, a chyweiriaf eu cyfeiliornadau yn ol llaw. Dywed y blaenaf—

"Yr oedd cadw siop mor anghynnefin a greddfau'r bardd, ac yr oedd naddu cerrig yn anghyfun a'i iechyd. Yr oedd galwad arall, yn yr hwn yr ymaflodd ar gais Bwrdd Amaethyddiaeth, yn fwy cydunol a'i archwaeth: hwn oedd ymchwiliad gweithredol trwy'r Deheudir, er mwyn ffurfio disgryfiad cywir o gyflwr y dosparth tradwys hwnnw; ac addefwyd ei addasrwydd at y gorchwyl gan lawer o'r boneddigion deallus a ymwelodd a hwynt yn ngwahanol ranau o'r Dywysogaeth. Yn ystod yr ymchwil hyn, ffurfiodd ddarlun-len *(map)*, daeardraethol *(geological)*, a mwneiol *(mineral)* o Sir Forganwg, yr hwn a ddichon fod etto i'w gael. Pa mor belled y cyflawnwyd yr arolygiad hyn nid wyf wedi bod yn alluog i gael gwybod; ond cafodd ei wneud dan amgylchiadau anffafriol tymmor gwlybaidd anarferol; ac nid oes dim yn fwy tebygol, nag i'r bardd gyda'i ddifaterwch arferol am elw, ddioddef i ereill fedi yn rhad ffrwyth ei lafur ef*." Y mae yn amlwg fod Mr. Waring mewn anwybodaeth ar y pen hwn; a dichon mai trwy gamddeall geiriau Mr. Malkin, a gwnaeth y casgliad anghywir sydd yn gynnwysedig yn y geiriau olaf. Y mae yn amlwg fod Waring wedi cael ei ffeithiau oddiwrth Malkin, ac nid yw ei hanes ef ond crynhoad o'r hyn a ganlyn:—

"Y mae yn beth i'w alaru fod talentau y bardd yn ei alwad saerniaidd, wedi eu cuddio mewn lle nad oedd yn bossibl iddynt ddyfod allan o'u ymguddfa. Pe buasent wedi denu sylw yn nechreuad ei oes, buasai'r cyhoedd wedi ennill adeiladydd neu gerfiedydd enwog, heb golli hynafiaethydd gwerthfawr. Fel y mae, nid oes nemawr o well beirniaid mewn adeiladaeth, mewn cynllun neu wneuthuriad. Y mae er ys peth amser (cyhoeddwyd y llyfr yn 1807) wedi ei roi ar waith gan Fwrdd Amaethyddiaeth i gasglu defnyddiau at ddesgryfiad o gyflwr y Dywysogaeth, neu yr hyn leiaf o Ddeheudir Cymru. Clywais am dano ef yn anneddoedd y boneddigion mwyaf gwybodus a deallus yn Ngheredigion, trwy yr hon yr oedd wedi tramwy; ac yr oeddent oll yn dwyn tystiolaeth gydunol am symledd ei foesau, ac am helaethrwydd ei gymmwysderau. Y mae yn ddrwg gennyf fod y ddiareb am broffwyd yn ei wlad ei hun, yn cael ei gwirio i raddau pell

* Waring's Life of Iolo Morganwg, p. 110.

ynddo ef; o herwydd, tra mae Mr. Williams yr hynafiaethydd yn cael ei enwi mewn mannau ereill gyda'r parch dyledus i gyrhaeddiadau boneddwr heb ei diriogaeth, nid oes ond nemawr a'i adnabyddant ym Morganwg dan un enw arall, na "Ned Williams y Stonecutter." Yn wir, y mae ganddo le i achwyn ar anghyfiawnder, yn gystal a diofalwch, oddiwrth rai dynion na wnaethant un at-daliad iddo am eu dwyn i adnabyddiaeth o fod meini gwerthfawr ar eu tiriogaethau; ac y mae ymddygiad o'r fath yn annoeth, yn gystal ac yn hunanol, gan ei fod wedi achosi tuedd ynddo ef i attal y gweddill o'i wybodaeth am bethau o'r fath. Y mae'r parth hyn o Forganwg yn llawn o farmor ardderchog, ac y mae efe yn berchen ar amryw o siamplau a gymmerant lathredd uchel." (*Malkin's South Wales*, i. 200). Wele draethiad gwahanol. Y mae Waring yn awgrymu fod y bardd wedi dioddef annhegwch oddiwrth y Bwrdd Amaethyddol; ond nid oes un sail yn iaith Malkin i un cyhuddiad o'r fath. Dichon i rai o bobl Morganwg wneud anghyfiawnder a'r bardd; ond nid yw hynny yn un prawf na chafodd ei dalu am yr hyn a wnaeth dros y Bwrdd. Dywedant eill dau fod y bardd yn cael ei osod ar waith gan y Bwrdd; ond nid oedd efe mewn gwirionedd yn ngwasanaeth y corff hwnnw. Ymdairiedwyd y gorchwyl i'r Parchedig Walter Davies, a chanddo ef y cyflogwyd Iolo; nid oes un rheswm gennym i gredu na chafodd gyflawn daledigaeth am ei lafur; ac y mae ei hen gyfaill Gwallter Mechain yn gwneud cydnabyddiaeth anrhydeddus am y cynnorthwy a gafodd gan yr hen fardd. Yn 1815, cyhoeddwyd ffrwyth eu llafur, dan yr enw, "General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales, drawn up for the consideration of the Board of Agriculture and Internal Improvement, by Walter Davies, M.A. 2 vols. 8vo." Ac yn y rhagymadrodd dywed yr awdwr, ar ol talu diolchgarwch i ereill, "Yn olaf y mae yn ddyledus arnaf i enwi *Mr. Edward Williams*, o Flemstone, yn agos i'r Bontfaen, yr hwn a gyflogais oddiar ddechreuad yr ymchwil i'm cynnorthwyo ac i gyd-ymdeithio a mi; ac o herwydd ei gynorthwy ef a'r defnydd a wnaed o'i bapurau ef, y mae'r arolygiad canlynol wedi ei ysgrifenu yn y person cyntaf o'r rhif luosog,"* sef, *ni*. Y mae yn amlwg oddiwrth y gwaith hwn, fod Iolo yn berchen ar wybodaeth helaeth am ansawdd mwneiol Sir Forganwg; a bod rhan fawr wedi bod ganddo ef yn nghasgliad y defnyddiau; ac y mae'r cyfrolau hyn yn adlewyrchu llawer o anrhydedd arnynt eill dau, gan eu bod yn cynnwys corph o ffeithiau gwerthfawr ar gyflwr amaethyddiaeth y Deheubarth, yn nechreuad y ganrif bresennol. Y mae'r *map* am ba un y sonia Mr. Waring, wedi ei gyhoeddi yn nechreuad y gyfrol gyntaf, ac y mae darluniau ereill trwy y gwaith; ac hyspysir i ni gan yr awdwr hwnnw, fod Conybeare a Phillips, yn eu *Outlines of Geology*, wedi gwneud difyniadau allan o'i arolygiad ef o ddaeareg y tir rhwng Penarth ac Aberthaw, ond ei fod yno yn cael ei gam-enwi yn Mr. G. Williams. (Waring, 110).

Dichon mai ar yr hynt hyn, y dygwyddodd yr amgylchiad canlynol, yr hwn a ddengys un o brif nodweddion y bardd yn ei lawn ddisgleirdeb. Yn ystod un o'i grwydriadau yn Ngheredigion,† dygwyddodd un nos gauaf ei

* "And finally, I have to acknowledge obligations to Mr. Edward Williams of Flemstone, near Cowbridge, whom I engaged from the commencement of the survey, to accompany and assist me; and owing to his aid, and the use made of his papers, the following survey is written in the first person plural."—Preface, p. 11.

† Ceredigion oedd hen enw Sir Aberteifi, ac y mae etto yn arddangosedig yn yr enw Saesonaeg, Cardigan.

fod yn fwy blinedig nag arferol, ac ym mhell oddiwrth dŷ un cyfaill; ac yna trodd i dafarn-dŷ ar ochr y ffordd i gysgu'r noswaith honno. Nid oedd wedi bod yn hir wrth dan cysurus, pan ddaeth *pedlar* tlawd i mewn a'i gŵd ar ei gefn, ac ym mron sythu gan lesgedd ag oerfel. Gofynai yn ostyngedig am le i gysgu yno, ond cyfaddefodd yn ddiragrith nad oedd arian ganddo i dalu am ei wely, er fod digon o nwyddau yn y *pack* i dalu am letty a llawer yn ychwaneg. Ond yr oedd gŵr y tŷ yn un o'r dynion lluosog hynny, sydd yn mesur pawb wrth eu arian, ac mor barod i sathru tylodion dan eu traed, ag y maent i lyfu traed cyfoethogion; a gwrthododd yn sarrug y cais rhesymol hwn, gan ddywedyd nad oedd un lle iddo dan y tô hwnnw, os nad oedd ganddo arian i dalu am dano. Eilwaith, ac eilwaith, a llais egwan a gwedd welwlas, gofynwyd yr un cais, ond yn aflwyddiannus; nid oedd un tiriondeb ym mynwes y tafarnwr at ddynion heb arian yn eu llogellau; ac o'r diwedd gorchymmynodd yn arwaidd i'r nwyddwr egwan ymadael a'r tŷ. Nid oedd y bardd wedi bod yn syllydd dideimlad ar yr ymddygiad annaturiol hyn; yr oedd ei deimladau wedi cael eu gorgyffroi; ac yr oedd ffrydiau ei galon yn cyflymu gwres i'w aelodau. Nid oedd ganddo ond un swllt yn y byd, yr hwn oedd yn ofynol i dalu am ei letty ei hun; ond wele un mwy anghenus nac efe, ac yn ol ei olygiadau ef ar yr undeb cymdeithasol, yr oedd ei ddyledswydd yn galw arno i aberthu ei gysur ei hun er mwyn anghenion y llall. Gan hynny tynodd y swllt o'i logell, a rhoddodd ef yn llaw y nwyddwr, gan ddweyd y talai hwnnw am ei le, ac y ceffai letty er gwaethaf y tafarnwr anwaraidd. Yna trodd at ŵr y tŷ, gan ddywedyd, "Dyhiryn! a elwi dy hun yn ddyn! Tydi yr hwn a yrrit deithiwr llesg o'th dŷ ar y fath nos a hon, dan unrhyw amgylchiadau! Oeddet yn bwriadu ei ddilyn, ei yspeilio, ac efallai ei lofruddio ef? Y mae gennyt galon llofrudd, yr wyt yn warth i ddynolryw, ac ni arosaf dan dy dô am un funud yn ychwaneg; ond syn ar dy berigl na yrri allan y teithiwr tlawd hyn—ni feiddi wrthod yr arian a all efe gynnyg yn awr." Wedi ymarllwys ei deimladau digllon gyda'i ffraethineb arferol, ymaflodd yn ei ffon, ac aeth ymaith i'r nos erwin—yn ddigyfoeth y mae'n wir, a digwyno hefyd; ond yr oedd ynddo wybyddiaeth gyflawn o wirionedd y geiriau a lefarwyd gan yr hwn "nad oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr," sef, "Mai dedwydd yw rhoddi yn hyttrach na derbyn." Yr oedd amryw filldiroedd rhyngddo a thŷ ei gyfaill, ac erbyn cyrhaedd y lle boreu tranoeth, yr oedd bron a methu gan yr oerfel a'r dihysbyddiad. Y canlyniad oedd twymyn, ac ni fu yn alluog i fyned yn y blaen ar ei daith am amryw o wythnosau. "Ar fy ngofyniad—medd Waring—i'r bardd am gadarnhad o'r hanes, dywedodd ei bod yn gywir, ac nad oedd un weithred yn ei fywyd wedi rhoddi mwy o foddlonrwydd iddo, er anffawd yr afiechyd. Cyfarfu a'r nwyddwr wedi hynny yn un o'i deithiau, ac adnabuodd y bardd yn uniawn; yr oedd yn ddiolchgar iawn am y garedigrwydd, a dywedodd ei fod yn ystyried ei fywyd yn ddyledus i'w haelioni ef y noswaith honno, gan y buasai yn sicr o drengi pe buasai yn cael ei wthio allan i blith yr elfenau gerwin, gan y tafarnwr creulon. Mynnai ym mhob modd at-dalu'r swllt, a rhoddi defnydd gwasgawd fel diolch-offrwm, ond gwrthododd y bardd bob un o'r ddau; cynghorodd y nwyddwr "i roddi diolch i Dduw, ac ymddwyn yn onest yn ei farsiandaeth;" a dywedodd wrtho, "fod cymmorth ewyllysgar mewn adfyd, yn ddyledswydd oddiwrth un dyn at arall, ac at y Goruchaf Dduw, Tad holl ddynolryw." Y mae caniad gan fardd Saesonaeg o'r enw Phillips,

i un "Swllt Ardderchog," ond dylai hwn gael y flaenoriaeth ar bob swllt ardderchog arall, medd Mr. Waring (tud. 56—8), ac meddaf innau.

Y crybwylliad nesaf am yr hen fardd a geir mewn llythyrau oddiwrtho ef at Mr. Edward Williams, llyfr-werthydd, yn Llundain. Y mae'r cyntaf yn ddyddiedig, "Flemstone, near Cowbridge, April 23rd, 1809," ac yn cynnwys y darnau canlynol :—

"Anwyl Sir,—Y mae fy nghlefyd anadl-fyr wedi bod y fath, fel nad wyf wedi bod yn alluog er ys dwy flynedd i orwedd mewn gwely: y mae hyn wedi fy nghwanhau lawer mewn corph a meddwl. Peth rhyfedd er hynny yw arferiad. Yr wyf wedi deall fod y cyfansoddiad dynol yn alluog i ymgynnefino a phethau bron yn anghredadwy. Fel hyn, nid yw y gorfodiad i eistedd mewn cadair trwy y nos yn barhaus, yn pwyso mor galed arnaf ac yr oedd ar y cyntaf; ac yr wyf yn teimlo fy hun yn well mewn iechyd, mewn yspryd, ac mewn grym corfforol, nac yr wyf wedi bod.

"Yn eich llythyr caredig o'r 13eg o Ionawr, dymunech wybod rhyw beth am fy nghynlluniau: meddyliaf mai fy nghynlluniau llenyddol oedd gennych mewn golwg.

"Y mae fy 'Hanes y Beirdd' bron yn barod, a gallaswn ddechreu argraffu pe buasai gennyf ddigon o amser ag yspryd i ymaflu yn y gorchwyl. Gwnaiff ddwy gyfrol wyth-plyg.

"Yr wyf wedi cyfieithu ysgrif Aberpergwm o groniel Caradog o Lancarvan, printedig yn yr 'Archaiology,' ac wedi parattoi rhai nodiadau atto; gwnaiff gyfrol wyth-plyg ddiogel, gwerth oddeutu deuddeg swllt.

"Yr wyf hefyd wedi cyfieithu 'Brut y Saeson," sef, Hanes y Saeson, allan o ysgrif yn y British Museum: ysgrif hen iawn, printedig yn yr 'Archaiology.' Gwnaiff, ynghyd a'r nodiadau, gyfrol wyth-plyg, gwerth naw swllt neu ddeg.

"Yr wyf yn cyfieithu 'Bonedd Saint Ynys Prydain,' sef, Hanes yr hen Seintiau Prydeinig, gyda nodiadau; a chydag ef, 'Llyfr Twrog,' o'r hwn cefais ysgrif mewn cwr rhyfedd o Gymru, yn 1803. Buasai yn nwylaw Owen Jones, ac o ganlyniad, yn yr 'Archaiology,' oni buasai i'w ymddygiad tuag attaf gynhyrfu drwgdybiaeth a gyfiawnhawyd yn ol llaw. Gwnaiff hwn gyfrol wyth-plyg fawr, ynghyd a nodiadau.

"Y mae gennyf gyfieithadau ereill yn barod, ac ereill mewn llaw, ond ni fyddaf byth yn alluog i'w hargraffu, ar un cynllun a ganniatta imi arolygu'r wasg, a chadw hanner y *copyright*, yr hyn leiaf, yn fy meddiant fy hun; ac ni chafant byth eu hargraffu yn un ffordd arall. Fy mab, gobeithiaf, a fydd byw i'w hargraffu, ond gobeithaf nad ymddirieda byth i un nawdd, i un Owain Myvyr, i un addas i'w enwi gydag ef.

"Myfi a ysgrifenais y byr-olwg ar yr hen ysgrifau Cymraeg, rhagddodedig wrth y gyfrol gyntaf o'r 'Archaiology,' yn yr hwn cynnygais rai rhesymau mewn amddiffyniad o awdurdodiad yr ysgrifau Cymraeg. Oddiar hynny yr wyf wedi ei helaethu yn gyfrol, yn yr hon, gobeithiaf, yr wyf wedi gwrthbrofi trawsddadleuon y Pinkertoniaid.

"Heblaw y rhai uchod, yr wyf wedi agos gwblhau fy nhraethawd datglymiol o'r iaith Gymraeg.

"Fy Ngrammadeg ar briodiaith Essyllwg, hen a diweddar. Y mae'r hen briodiaith lenyddol yn Essylliaith bur.

"Fy Ngrammadeg o'r briodiaith lenyddol ddiweddar, ar wahan oddiwrth ac yn ddigymwysg a'r hen.

"Y mae fy mab yn myned yn ddwfn i'r efrydau hyn, ac a fydd, er fy nhristwch i, yn awdwr, fel finnau, y mae yn fwyaf tebygol, efe a 'syrth ar ddyddiau drwg ac ar dafodau gau.'

"Yr wyf wedi gwneud llawer o welliadau yn fy 'Nghaniadau Saesonaeg,' yn eu parattoi at ail argraffiad, yr hwn ni welaf byth yn argraffedig; at yr hwn yr wyf wedi gwneud llawer o ychwanegiadau, yn gystal, ymddiriedaf, a nebawd argraffedig, a rhai, efallai, yn rhagorach.

"Yr wyf wedi ysgrifenu twysged o 'Hanes fy Mywyd.' Gellwch chwi fy niwallu at y dyben hwnnw a neb rhyw chwedl am Owain Myfyr? Nid oes nemawr a allant yn Llundain: yr wyf wedi derbyn dwy neu dair o rai da.

"Y mae rhan fawr o'm amser hamddenol yn y deunaw mis diweddaf wedi ei roddi at drefniad fy marddoniaeth Gymraeg, yr hwn a ddewisaf o flaen pob ymdrechion llenyddol arall."

Y mae pethau ereill yn y llythyr; ond nid ydynt yn atteb ein dyben presenol. Difynais y llythyr helaeth hwn o herwydd ei fod yn rhoddi mwy o eglurhad ar amcanion Iolo, a'i lafurwaeth nag sydd i'w gael yn un man arall; ac ymddengys imi nad oedd Mr. Waring yn gwybod am dano, nac ychwaith am lythyr arall, dyddiedig Ionawr 16eg, 1810; yn yr hwn y cyfeiria eilwaith at un o'r ysgrifau rhag-grybwylledig.

(*Pw barhau*).

DYNGARWCH.

"Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd: fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd."—Ioan xiii. 34.

Pwrpas mawr Crist ydoedd, crëu y byd o'r newydd; gwneuthur cyfnewidiad dwfn, helaeth, parhaus, yn mhlant dynion. Daeth ef i anadlu ynddynt ei anian ei hun, i'w dwyn trwy ffydd i undeb a chydymdeimlad ag ef, trwy yr hyn y derbynient ei rinwedd dwyfol, fel y mae'r canghenau yn derbyn dylanwadau bywiocäol oddiwrth y winwydden yn yr hon y maent yn aros; a'r aelodau oddiwrth y pen a'r hwn y maent wedi eu cysylltu mewn undeb bywydol.

Dyma yn neillduol ydoedd pwrpas Iesu Grist: i brynu neu waredu dynion o gaethiwed hunanoldeb, i'w codi i fynu i deimlo a gweithredu oddiar gariad dwyfol ac anhunanol. Wrth hyn y mynnai efe i'w ganlynwyr gael eu hadnabod, i'w grefydd gael ei gwahaniaethu yn amlwg oddiwrth bob sefydliad blaenorol. Amcanai fod hyn i gael ei wisgo fel talaith ar y talcen, ei fod i belydru fel goleuni oddiar y wynebpryd, ei fod i dywallt grâs a harddwch ar yr ymarweddiad, ei fod i roddi tônau o gydymdeimlad i'r llais, ac yn enwedig ei fod i roddi nerth i'r ewyllys, nerth i weithio ac i ddioddef er llesâd eraill.

Dyma un o'r nodau godidog sy'n gwahaniaethu Cristnogrwydd, anghydmarol mwy godidog na'r holl ddirgeledigaethau sydd wedi myned dan ei henw. Y mae ein gwybodaeth o Gristnogrwydd i gael ei fesur, nid wrth y llafur a gymerasom i dreiddio i ddyfnderoedd cyfundraethau duwinyddol, ond wrth ein deall a'n amgyffred am yr egwyddor anhunanol honno, ag y mae Crist wedi orchymyn fel ein tebygolrwydd i Dduw, ac fel perffeithrwydd y natur ddynol.

Oddiwrth Grist ei hunan, ac nid oddiwrth neb arall, y mae addysg i'w gael ynghylch yr anhunanoldeb hwn o eiddo Cristnogrwydd. Torrasai'r wawr ar y byd o'r blaen mewn dynion ardderchog, mewn proffwydi, doethion a deddf-wneuthurwyr. Ond cyfododd yr haulwen ddisglaer pan ymddangosodd Crist. Ni rydd hanes blaenorol y byd ddim ond lled-arwyddion anamlwg o'r cariad a dorrodd allan yn llewyrchiad disglaer oddiwrth Iesu Grist. Ac nis gellir dysgu y cariad hwn oddiwrth ei orchymynion yn unig. Rhaid i ni droi ein golwg at ei fywyd, ac yn enwedig at ei groes ef. Ei groes ydoedd gorseddfainge ei gariad. Yno yr oedd yn llywodraethu, yno y bu fuddugoliaethus. Ar wynebpryd yr Iesu croes-hoeliedig fe welid dull o deimlad oedd gryfach na gloes marwolaeth—ymddangosai cariad tawel, addfwyn, anorchfygol, annherfynol. Dywedaf eilwaith, mai y groes yn unig all ddysgu i ni nertholdeb ac ardderchawgrwydd y cariad y daeth Crist i'w gyfranu. Yno y gwelwn annherfynoldeb ei gariad; canys fe fu farw dros yr holl fyd. Yno y dysgwn ei faddeugarwch di-drai; canys bu farw dros hyd yn oed y gelynion hyny oeddent yn llychwino eu dwylaw yn ei waed.

Yno y dysgwn nerth hunan-aberthol yr un cariad; canys rhoddodd yr Iesu i fynu bob peth a gyfrifir yn dda mewn bywyd, a dioddefodd arteithiau marwolaeth boenus, yn achos dynolryw. Yno y dysgwn cymaint y mae'r cariad hwn uwchlaw'r byd; canys bu efe farw, nid i gyfoethogi dynion â da bydol ac allanol, eithr i anadlu ynddynt fywyd newydd, iechyd a phurdeb gwynfydig. Yno y dysgwn pa mor bell y cyrhaedda ei amcanion; canys bu efe farw i sicrhau yr addewid am anfarwoldeb o ddedwyddwch. Yno y dysgwn hefyd dynerwch a chyd-deimladrwydd y cariad hwn; o herwydd ynghanol ei ofalon dros y byd, yr oedd calon yr Iesu wedi ei gorlenwi a diolchgarwch a chariad at ei barchedig fam. Yno, mewn gair, y gwelwn ddwyfoldeb y cariad a ddangosai yr Iesu; canys dioddefai ef, trwy ei gyfranogiad o Ysbryd Duw a chwbl-ymroddiad i'w amcanion daionus, trwy undeb calon ac ewyllys a'i Dad Nefol.

Un o'n rhagorfreintiau penaf fel Cristnogion ydyw, fod genym yn Iesu Grist ddadguddiad o gariad perffaith. Ymae y drych-feddwl mawr hwn yn dyfod allan i ni oddiwrth ei fywyd a'i ddysgeidiaeth, fel gwirionedd disglaer a sylweddol. Deall hwn, yw deall Cristnogrwydd. I grëu a meithrin ynom gyffelyb serch cryf anhunanol, yw'r gorchwyl sydd gan Gristnogrwydd i'w gyflawni ar y ddaear.

Y mae un nodwedd ar gariad Crist, yr hwn y mae'r byd Cristnogol yn awr yn deffroi tuag atto fel ar ol hir gwsg, a'r hwn sydd yn debyg o wneuthur mwy na dim oll tuag at adnewyddiad y byd. Yr oedd efe yn caru dyn at wahân, neu ar ei ben ei hun *(Individual man)*. Cyn ei amser ef y dull o ddaioni a fawrygid fwyaf oedd gwlad-garwch. Dynion a garent eu gwlad, ond ni ofalent ddim am eu cyd-greaduriaid tu allan i derfynau gwlad, a dim ond ychydig am ddyn fel dyn *(the individual)* o fewn y terfynau hyny, gan ymroddi yn hollol i ofalon am y lles cyhoedd, ac yn enwedig yr hyn a elwid gogoniant y Wladwriaeth. Y deddf-roddwr, yn ceisio trwy ei sefydliadau, dderchafu ei wlad uwch law ei chydymgeiswyr; a'r rhyfelwr, yn rhwymo ei hiau ar ei gelynion ac yn ei choroni a llawrwydd gwaedlyd, oeddent enwau mawrion yr amseroedd boreuol. Crist a garai ddyn, nid cyrff o ddynion. Yr oedd y bod dynol yn anwyl iddo er ei fwyn ei hun; nid er mwyn y darn o'r ddaear lle y byddai yn byw, nid er mwyn yr iaith y llafarai; nid er mwyn ei râdd neu sefyllfa mewn bywyd, eithr er mwyn ei

ddynoliaeth, er mwyn ei gynnysgaeddiad fel bod deallawl a moesol, er mwyn delw Duw ar yr hon ei gwnaed ef. Nid oedd dim ag oedd allanol mewn cyflwr dynol, a allai lwyr-feddianu sylw yr Iesu, ucu gyfyngu ei gyd-ymdeimlad. Edrychai efe at yr enaid dynol. Hwn a garai. Dymunai feithrin y wreichionen ddwyfol, pa le bynag y trigai, a chan nad pa gymaint y byddai wedi ei thywyllu. Yr oedd yn caru dyn er ei fwyn ei hun, a phawb dynion yn ddiwahân a dieithriad.

Ni chyfyngid ei weinidogaeth ychwaith i un eglwys neu gynnulleidfa ddewisedig. Ar y mynydd fe agorodd ei enau ac a lefarodd wrth y dyrfa gymmysgedig. Oddiar fynwes y llyn traddododd ei ddamegion i'r lluaws o wrandawyr oeddent ar hyd ei glenydd. Maes natur oedd ei eglwys ef, y ddacar a'r awyr agored; a'i wirioneddau, fel dylanwadau naturiol goleuni yr haul a'r gwlaw, a ddisgynent ar bob un a phawb. Byddai yn byw yn y brif-ffordd, yr heol, a llefydd cyfarfod; a groesawai y tyrfâoedd awyddus fyddent wedi ymgasglu atto a bob grâdd a sefyllfa bywyd. Ac nid i dyrfaoedd, ychwaith, y cyfyngid ei gydymdeimlad. Nid oedd eisiau lluaws arno i'w gyffroi. Yr oedd y gwr iselaf ei gyflwr yn tynnu ei sylw ystyriol. Cymmerai y plentyn bychan yn ei freichiau ac a'i bendithiai; fe glywai y cardottyn yn gwaeddi arno ar fin y ffordd, lle yr oedd yn eistedd yn cardotta; a phan yn ngloes marwolaeth, fe weinyddai gysur i'r drwgweithredwr oedd yn trengi wrth ei ochr. Yn hyn ymlewyrchai doethineb yn gystal a chariad yr Iesu, gan ddangos eu bod o Dduw; am ei fod yn deall gwerth bod dynol. Mor wirioneddol oedd efe yn ddeall hyn, fel nad wyf yn ammau y buasai yn ei gyfrif yn llawn dâl am ei holl ymdrechiadau a'i ddioddefaint, pe buasai wrth hyny i achub ond un enaid. Yr oedd ei gariad ef at bob dyn yn gryfach na chariad tâd neu fam at eu hunig blentyn. Yr oedd yr Iesu yn fawr yn mhob peth, ond nid oedd mewn un peth yn fwy nag yn y gwerth a roddai ar ddyn, fel bod deallawl, moesol, cyfrifol, ac etifedd anfarwoldeb. Cyn ei amser ef ni freuddwydiodd neb am hyn. Yr oedd y llawer yn cael eu haberthu er mwyn yr ychydig. Yr oedd y lluaws o ddynolryw yn cael eu damsial dan draed. Nid oedd hanesyddiaeth wedi bod ddim ond cofrestr o ymdrechion a sefydliadau, y rhai ni ddangosent ddim gymaint â ddirmyg ar yr hil ddynol.

Yr Iesu oedd y dyngarwr (*philanthrophist*) cyntaf. Dygodd gydag ef gyfnod newydd, cyfnod dyngarwch; ac oddiar ei amser ef y mae ysbryd yn symud ar wyneb dyfroedd trybledig cymdeithas; ac fe barha i symud hyd nes bydd wedi dwyn trefn a harddwch allan o dywyllwch ac annhrefn. Yr oedd y dynion a hyfforddwyd ganddo, i'r rhai y tywalltodd fwyaf o'i ysbryd, yn arwyddion, yn brofion, fod teyrnas newydd wedi dyfod. Darfu iddynt hwy gyssegru eu hunain i waith nad oedd neb o'u blaen wedi ei gymeryd mewn llaw, gwaith hollol newydd, a'r fath na ddaethai i'r meddwl dynol i'w ddychymyg. Gadawsant eu cartref, eu meddiannau, eu gwlad; aethant ar led i wledydd dieithr, gan nid yn unig beryglu eu heinioes, ond ei dodi i lawr, er mwyn taenu y gwirioneddau a ddarbyniasent oddiwrth eu Harglwydd, er mwyn gwneuthur y gwir Dduw, y Tad, yn adnabyddus i'w blant dalledig; i wneud yr iachawdwr yn adnabyddus i'r pechadur, i wneuthur bywyd ac anfarwoldeb yn adnabyddus i'r trengedig ac i roddi cyffroad newydd i'r enaid dynol.

Yr ydym yn ddarllen am anfoniad yr Apostolion fel peth a gymerai le mewn cwrs rhëolaidd. Ni ddarfu i'r meddwl feallai ymgynnyg i ni, eu bod

hwy yn cychwyn ar gylch o weithrediad nad oeddid o'r blaen wedi ei chwilio na'i brofi; nad oedd ôl traed neb ar y llwybr oedd o'u blaen; nad oedd yr amgyffred a'r amcan, ag oedd yn eu hysbrydoli hwynt, sef, argyhoeddi ac adnewyddu'r byd, ddim wedi cymaint â gwawrio ar feddyliau y rhai cryfaf eu deall; nad oedd y cariad hwnw at bob dyn, yr hwn a'u cymhellodd ac a'u cariodd ymlaen dros foroedd a thrwy anialwch, yn mysg fflangellau a newyn a charchar ac angeu, ddim ond goleuni newydd a dorrodd allan o'r Nef ar y ddaear, dadguddiad newydd o ddwyfoldeb y natur ddynol. Dyna'r pryd y dechreuodd dyn gynhesu at ddyn, gydâ thostyri a chariad tebyg i Dduw. Pryd hyny y clywyd llafar newydd ar y ddaear, llafar gweddi am adferiad, maddeuant a dedwyddwch y byd. Yr oedd yn beth dieithr iawn, yr oedd yn wyrth i'w rhyfeddu yn fwy braidd nâ chyfodi'r meirw, ddyfod o'r fath ymgais a'r fath ysbryd allan o Judea, y wlad fwyaf ei neillduolrwydd a'i chulni tan y Nef, yr hon oedd yn cashâu ac yn diystyru pob cenedl arall, ac yn cilio rhag cael ei halogi trwy gyffwrdd â hwynt—fyned allan o'r wlad honno ddynion, i gyhoeddi yr athrawiaeth o frawdoliaeth dynol, i roddi i bob dyn byw, gan nad pa mor syrthiedig neu ddirmygedig, sicrwydd am anfeidrol gariad Duw, i dorri i lawr yr attalfeydd oedd wedi bod yn dieithrio gwahanol genhedloedd, a gwahanol râddau o ddynion oddiwrth eu gilydd, ac i dywallt eu gwaed fel ddwfr yn y gwaith o daenu ysbryd cariad cyffredinol. Mor nerthol oedd caracter yr Iesu wedi effeithio ar ysbrydoedd y dynion oedd ef wedi byw yn eu mysg.

Wedi yr amser hyny gorchuddiwyd y byd gwareiddiedig gan lifeiriaint o farbariaid, ac oesoedd o dywyllwch a aethant heibio. Ond gwelwn rai pelydrau o'r goleuni dwyfol hwn yn torri allan trwy'r tywyllwch tewaf. Ni ddarfu i'r cyffröad a wnaed gan Gristnogrwydd ddim colli ei effaith yn hollol. Yr oedd cerfiadaeth anghelfydd yr oesoedd tywyll yn darlunio yr Iesu yn hoeliedig ar ei groes; ac er maint y camddefnydd a wnaed o'r darlun hwn at amcanion coel-grefydd, yr ydoedd etto yn llefaru am ddyngarwch ag oedd yn gryfach nag angeu, ac yn teimlo ac yn dioddef dros bob dyn; ac yr oedd y rhinwedd a elai o hono, er tyneru a gwareiddio, y fath nad allai hyd yn oed y barbariad ei gwbl wrthsefyll.

Yn ein dyddiau ni y mae caracter Crist yn dwyn ei wir effeithiau gogoneddus mewn modd mwy amlwg. Nid oes yn wir genym nemawr achos i ymffrostio. Mae'r olwg a geir ar ddynion yn gyffredin o hyd yn dangos caledrwydd a hunanoldeb. Etto y mae ar y funud hon ddwys ofal am ddynoliaeth, cydymdeimlad â dioddefaint dynol, teimladrwydd o'r camddefnyddiau a'r drygau ydynt yn anffurfio cymdeithas, ffydd ei fod yn ngallu dyn i gyrhaeddyd gwellhad cynnyddol, dymuniad am gynnydd ar wellhâd dynol, dymuniad i roddi i bob dyn y moddion i'w gyfodi i gyflwr o well, ac i rinwedd o uwch, y fath a'r nas gwelwyd erioed o'r blaen. Yn mysg yr arian-garwch a'r cyflogeiddrwydd sydd yn diraddio dynion i fod yn offerynau gwael, a'r uchelgais a fynnai eu damsial i'r llawr yn ei ymgyrch at awdurdod, y mae etto barch i ddyn fel dyn, cydnabyddiaeth o'i freiniau, dymuniad am ei gyfodi i gyflwr o uwch, yr hyn ydyw y prawf sicraf fod dynion yn deall Iesu Grist yn well, a'r arwydd sicraf fod amser gwell ar wawrio i ddynolryw. Y mae dynoliaeth a chyfiawnder yn gwaeddi yn uwch uwch o blaid y neb sydd yn dioddef, y caeth-ddyn, yr anwybodus, y carcharor, yr amddifad, y morwr a hir êsgeuluswyd a'r pagan tywyll. Nid y'm yn cyfeirio yn unig at sefydliadau newydd er gwellhâu cyflwr dynoliaeth; nid y rhai hyn sy'n rhoddi y

profion mwyaf eglur o gynnydd er gwellhâd. Yr ydym yn canfod yn ymwybodolrwydd cyffredin cymdeithas, yn nheimladau cyffredin dynion, arwyddion o gydnabyddiad mwy haelfrydig o'r hyn sydd ddyledus oddiwrth ddyn i ddyn. Y mae hud-lewyrch gwahaniaeth allanol yn dallu llai ar ddynion nag y bu. Mae y rhagfarnau cysylltedig â sefyllfâoedd a graddau mewn bywyd wedi lleihâu. Gwelir fod dyn o fwy o werth nâ'r wisg sydd am dano, neu'r teitl roddir arno. Yr ydys yn dechreu deall mai bod yn ddyngarwr yw bod yn Gristion, ac, mewn gwirionedd, mai ysbryd o ferthyrdod, neu lwyr ymroddiad yn achos dynolryw, ydyw hanfod Cristnogrwydd.

CHANNING..—*Cyf.* N.

RHESYMAU YN ERBYN ANGENRHEIDRWYDD PHILOSOPHYDDAIDD YN CAEL EU GOSOD ALLAN A'U HATTEB. —DOSBARTH VII.—*(Parhad o tudal* 205*)*.

YR WYTHFED GWRTHWYNEBIAD.

MAE yr athrawiaeth o angenrheidrwydd philosophyddaidd yn gwneuthur Duw i fod yn unig weithredydd priodol yn yr Hollfodoldeb *(Universe)*, ac awdwr pob drwg, yn gystal naturiol a moesol.

ATTEB 1. Nid ydyw yr athrawiaeth o angenrheidrwydd philosophyddaidd yn gwneuthur Duw yn GYMMERADWYWR y drwg, nag yn ei osod ef allan fel yn ei ddewis ef er ei fwyn ei hun.

2. Mae yr athrawiaeth yn bwrw fod rhyw gyfran o ddrwg yn anocheladwy mewn system ar y cyfan y mwyaf teilwng o'r Bod Goruchaf, ac yn y pen draw yn dwyn oddiamgylch y daioni mwyaf. Ar yr olwg hon gellir dywedyd fod Duw yn AWDWR o bechod; efe a'i caniataodd ac a'i appwyntiodd ef trwy osod ei greaduriaid mewn amgylchiadau, ag yr oedd drwg naturiol, a moesol, yn ganlyniad angenrheidiol a rhagweledig.

3. Mae yr athrawiaeth o ewyllys-rydd a rhagwybodaeth yn agored i'r un anhawsderau. Rhaid i bob un sydd yn addef yr egwyddorion hyn, os ydyw yn gyson ac ef ei hun, ganiatau fod y Duwdod wedi dodi ei greaduriaid mewn amgylchiadau, canlyniadau rhagweledig, sicr, ac anocheladwy, ac am hynny, BWRIADOL y rhai, oedd dygiad drwg naturiol a moesol i mewn.

Dibwys a disail ydyw dywedyd y gallasai creaduriaid Duw ym mhob instans neillduol ochelyd drwg. Pa fodd y gallai hynny gael ei ochelyd, yr hyn oedd wedi ei ragweled fel dygwyddiad sicr? Nid ydyw ddim i un pwrpas i ddadleu nad oedd gan ragweliad un dylanwad ar y digwyddiad, yr hyn a ddigwyddasai gyda sicrwydd cyfartal pe na buasai wedi cael ei ragweled. Yn wir nid ydyw rhagweliad un na fyddo ond EDRYCHYDD yn unig, yn dynodi dim yn chwaneg na sicrwydd y digwyddiad, yng nghyflawniad yr hyn nid oedd gan yr edrychydd un llaw. Mae rhagweliad y gweithredydd yn wahanol neillduol. Rhaid fod pob bod deallus yn bwriadu dwyn oddiamgylch yr effaith honno y mae ef yn ragweled fydd canlyniad sicr ei weithred hunan ewyllysiadol. Mae y Bod goruchaf am hynny yn yr ystyr hyn, yn awdwr drwg yn ol yr athrawiaeth o Ewyllys-rydd, yn gymmaint ag yn ol Angenrheidrwydd. Geiriol yn unig ydyw y gwahaniaeth, a gynnigir ei wneuthur yn hyn, rhwng caniatâd ac appwyntiad*.

4. Mae ysgrythyrau yr Hen gyfammod yn gystal a'r Newydd, yn gosod Duw allan fel awdwr o ddrwg yn yr ystyr a eglurwyd eisioes. Is. xlv. 6, 7

---

* Correspondence of Price and Priestley, p. 416, 417.

—"Myfi, myfi yw'r Arglwydd ac nid neb amgen. Yn llunio goleuni, ac yn creu tywyllwch, yn gwneuthur llwyddiant, ac yn creu drygfyd: myfi yr Arglwydd sydd yn gwneuthur hyn oll," Amos. iii. 6.—"A genir udgorn mewn dinas heb ddychrynu y bobl? a fydd niwed mewn dinas heb i'r Arglwydd ei wneuthur? Rhuf. ix. 18—Felly gan hynny y neb y mynno y mae efe yn trugarhau wrtho, a'r neb y mynno y mae efe yn ei galedu."

5. Nid ydyw yn un cyfiawnhâd i'w greaduriaid am droseddu rheolau rhinwedd fod Duw yn achos o ddrwg yn yr ystyr hyn, nag i wneuthur drwg dan y rhith o ddwyn oddiamgylch ddaioni o fwy. Nid ydyw yn beth ang'hyfiawn yn Nuw i ddarostwng un o'i greaduriaid i radd derfynol o ddrwg, fel y moddion goreu i gyflawni ei amcanion daionus; oblegyd Duw yw meddianydd pennadurol pawb ôll, a gall wneuthur a'u greaduriaid fel y mynno heb fod yn gyfrifol i neb, ac nid oes ganddynt un claim ar eu Gwneuthurwr ym mhellach na hyn, sef na fyddo eu bodoliaeth yn y diwedd yn felldith. Efe a all wneuthur iawn helaeth a diderfyn am un drwg y fyddont hwy wedi ei ddioddef. Ond nid ydyw am hynny yn canlyn, i fod bod yr hwn sydd yn ammherffeith ei garacter, a'r hwn sydd a'i olygiadau yn derfynol, yn rhydd i roddi ar ei gyd-ddyn, ar fodoliaeth a dedwyddwch yr hwn nid oes ganddo un awdyrdod gynhenid, un rhan o ddrwg yr hwn nid ydyw yn ei allu i wneuthur un gwelliant iawn am dano, er mwyn cyrraedd y peth y mae efe yn rhyfygu i alw daioni o fwy, ond am yr hwn nid ydyw yn alluog i farnu, na chwedl ei awdurdodi i wneuthur hynny. Ffolineb, ac annuwioldeb o'r mwyaf ydyw pledo siampl y Duwdod mewn câs mor hollol annhebyg fel nad oes y berthynas leiaf rhyngddynt.

6. Os ydyw dygiad y drwg i mewn yn wirioneddol groes i'r bwriad dwyfol, gan fod croesiad ar ewyllys pob bod o angenrheidrwydd yn peri anesmwythder, a chan fod drwg moesol yn anfeidrol atgas i'r Duwdod, rhaid fod Duw yn anfeidrol annedwydd.

7. Mae gwadu neu gyfyngu rhagwybodaeth Duw yn arwain i ganlyniadau môr chwithig, ac mor ddianrhydeddus i'r Bod Goruchaf a'i lywodraeth, ac y mae mor gwbl groes i holl rediad y dadguddiad dwyfol, ac yn dadymchwelyd ei brofion pennaf, nes ydym yn arlwyo rhagymmeriad cryf yn erbyn gwirionedd athrawiaeth, yr hon y mae hyn yn ganlyniad angenrheidiol neu debygol. Ar y cyfan gan hynny y mae pleidwyr ewyllys-rydd philosophyddaidd yn cael eu darostwng i un o'r ddau anhawstra hyn, naill ai i wadu rhagwybodaeth Duw, ac fel hyn ei ysbeilio ef o un o'i briodeddau mwyaf ardderchog, neu i gyfaddef fod Duw yn awdwr o bechod, yn yr un ystyr, ac i'r un graddau ag y mae y cyhuddiad hwn yn cael ei ddwyn yn erbyn yr angenrheidwyr*.

Y NAWFED GWRTHWYNEBIAD.

Mae'r athrawiaeth o angenrheidrwydd yn ang'hyson â geirwiredd Duw yn ysbysiadau, ac addewidion; gahoddedigaethau a bwgwthion yr Ysgrythyrau.

Atteb 1. Mae yr anhawstra, os oes un yn bod, yr nn mor fawr ar y farn o rydd-did a rhagwybodaeth: oblegid pa fodd gall creaduriaid Duw ymddwyn yn wahanol i'r hyn a wyr efe? Paham ynteu y mae yn eu gwahödd hwynt i edifarhau, neu yn eu hoferhudo *(tantalize)* hwynt ag addewidion? Nid ydyw y gwrthwynebiad am hynny yn perthyn mewn modd neilldnol i'r athrawiaeth o angenrheidrwydd.

* Edwards on the Will, part iv, sect. 10. Priestley's Illustrations, sect. 10. Palmer against Priestley, sect. 10. Priestley's Reply, sect 10.

2. Nis gall dywediadau, yn arddangos nwydau dynol yn y Bod Dwyfol, megis, digllonedd, cydymdeimlad, a'r cyffelyb, gael eu deall yn llythyrennol heb ddynffurfiad *(anthropomorphism)* bron mor ddirfawr a phe tybid fod llygaid, a chlustiau, a dwylaw ganddo. Gan fod yr Ysgrythyrau wedi eu bwriadu at wasanaeth yr annysgcedig, mae eu iaith wedi ei hadasu at amgyffrediadau y werinos, ac nid ydyw i'w chymmeryd mewn ystyr eglur llythyrennol.

3. Y cwbl a all gael ei addef gan ddynion o sylw fel yn wirionedd philosophyddol ydyw, nad ydyw drwg naturiol a moesol yn foddhâol gan Dduw; nad ydyw efe yn ymhyfrydu nac i weled, nac i wneuthur ei greaduriaid yn annedwydd; y bydd i ddrwg moesol o'i ddilyn i gael ei ganlyn gan ddrwg naturiol, hynny ydyw cosp; ac y coronir rhinwedd yn y diwedd â dedwyddwch.

4. Mae cynghorion, gwahoddiadau, addewidion a bygythion, a annerchir at weithredyddion angenrheidiol yn gweithredu, megis annogaethau i attal rhag y drwg, ac i gyffroi at ymarferiad rhinweddol. Ond pan yn cael eu cyfleu at fodau yn feddiannol ar y gallu hunan-benderfyniadol, nid ydynt o un lles ym mhellach nag y gall y fath fodau gael eu cyffroi gan annogaethau, hynny ydyw, pan y byddo y gallu hunan-benderfyniadol yn cael bod yn segur.

Y DEGFED GWRTHWYNEBIAD,

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn cynnwys ynddi arfaeth ddiammodol, a thyngedfen; mae yn digaloni dyn i ymdrechu, ac y mae yn tueddu i ddwyn cysgadrwydd a diymdrechiad.

Atteb 1. Ni all y gwrthwynebiad hwn gael ei wneuthur gan y rhai ydynt yn pleidio ewyllys-rydd a rhagwybodaeth, am ei fod yn gwasgcu ar eu hathrawiaeth hwy gyda'r un gyfartal nerth; oblegid y mae rhagwybodaeth o angenrheidrwydd yn cynnwys sicrwydd y digwyddiad.

2. Pa sicrwydd bynnag a all berthyn i'r digwyddiadau eu hunain, mae ein hanwybodaeth ni o beth sydd i ddyfod, yn sicr, fel y dylai, o weithredu arnom ni yn yr un modd a pe byddai ansicrwydd gwirioneddol yn natur a threfn pethau.

3. Os ydyw y dibenion yn sefydledig ac angenrheidiol, y mae y moddion at eu cyflawni hefyd yn angenrheidiol; ac os canfyddir fod gweithred ewyllysiol yn dorch angenrheidiol yn y gadwyn o achosion, bydd i'r olygfa hon weithredu fel annogaeth i ymdrechiad yn y gweithredydd, yr hwn sydd yn dymuno y diweddiad, ac mewn cyfartalwch i bwysigrwydd y dymuniad hwnnw. Pa fodd bynnag, ni all un bod sydd yn gwybod fod cyflawniad y dibenion yn ymddibynnu ar gyfryngiad *(intervention)* gweithredoedd ewyllysiol, fod mor ddisynwyr a disgwyl am y diben lle na byddo y moddion angenrheidiol yn cael eu defnyddio.

4. Mae sylw beunyddiol yn profi nad ydyw y gred gadarnaf yn sicrwydd y digwyddiadau, yn llaesu grym yr ymdrechiad. Nid ydyw angenrheidwyr ac Arfaethwyr mewn gwirionedd yn fwy musgrell na dynion ereill. Nid ydyw y ffarmwr, yr hwn sydd yn credu fod Duw yn gwybod, a chwedi trefnu i'r cynhauaf nesaf fod yn ddigonol, neu yn brin, ddim am hynny yn esgeuluso cwrteithio y tir, a'i hau. Ac nid ydyw y gred yr hon sydd braidd yn gyffredinol fod amser ac amgylchiadau ymddattodiad wedi ei sefydlu yn ddialw yn ol i bob dyn, yn lleihau ymdrechiadau dyniol i gadw bywyd.‡

‡ Edwards on the Will, part iv, sect. 5, 6, 12. Priestley's Illustrations, sect. 8, 12 and appendix. Palmer against Priestley, sect. 8, p. 146, &c. Priestley's Reply, p. 83 &c.

TASG I DRINDODWYR.

Syr.—Fe addefir, yr wy'n credu, gan bob dyn pwyllog, ac am hyny mi a'i cymeraf yn awr yn ganiatäol, y gallwn gael allan trwy oleuni natur, fod Duw; nad ydyw ond un bod neu berson, hyny yw, ûn bod deallus, creawdwr a chynnaliwr pawb a phob peth; ei fod ef yn hoffi rhinwedd; ac ei fod yn nghwrs ei ragluniaeth yn ei gwobrwyo. Ac fel y mae hyn yn berfaith gytunol â'n rheswm, felly rhaid fod unrhyw ddadguddiad ychwanegol o hono ei hun ac o'i ewyllys i ddynolryw, yr un mor gytunol—nas gall fod yn groes i reswm; oblegid Duw'r gwirionedd digyfnewid yw yr hwn sydd yn llefaru yn y naill fodd fel y llall; ac am hyny nis gallwn am funud lettya'r dyb, ei fod ef wedi dywedyd un peth trwy natur a'r gwrthwyneb i hyny trwy dadguddiad. Ac os oes crefydd i'w chael yr hon a ddywedir ei bod yn ddadguddiad o'r nef, ac ei bod yn athrawiaeth arbenig o'r grefydd honno, i fod yn hanfodi yn y Duwdod dri o bersonau gwahanol, y rhai ydynt yn dwyn perthynasau a swyddau gwahanol, fe orphwys ar y sawl a gredant yn y cyfryw grefydd i brofi, yn gyntaf, ei bod o darddiad dwyfol. Ac i'm tŷb i, nid tasg bychan fyddai profi fod unrhyw athrawiaeth a gynnwysai wrthuni a gwrth-ddywediad noeth, yn ddadguddiad oddiwrth Dduw'r gwirionedd. Ond i beidio ag aros ar y pen hwn, gan ein bod yn cytuno ar fod y Beibl yn cynnwys dadguddiad dwyfol; ynghylch cynnwysiad y dadguddiad hwnw y cyfodir y cwestiwn sydd yn awr mewn dadl.

Nid yw yn rhyfedd genyf fi, fod Trindodwyr mor anewyllysgar i gydio yn y tasg o ddangos nad yw eu hathrawiaeth hwy yn anghyson â hi ei hun nac â gwirioneddau adnabyddus. Gadawaf i'w cydwybodau eu hunain, i ymholi a ydyw eu gwaith yn pledio mawredd y dirgelwch, yn ddim amgen nâg esgus cyfleus? Pa fodd bynag y mae tasg arall, yr hwn nid allant ei wrthod gydâg un lliw o gysondeb: y mae yn gorphwys arnynt i ddangos fod y dadguddiad dwyfol yn cynnwys yr athrawiaeth o Drindod o bersonau yn y Duwdod.

Er dangos yr hyn beth, barnaf ei bod yn rhaid i Drindodwyr brofi fel y canlyn: hyny yw, i brofi allan o'r Hen Destament, fod *Duw Abraham, Isaac a Jacob*, yn *Dri ac yn un*: yr hyn, os yn wirionedd, a ellid ac a ddylid ei ddangos allan o hanes y Patrieirch hyny; fod yr athrawiaeth yn un ag oedd Moses yn ei chredu, am yr hwn y dywedwyd mewn iaith ffigwraidd i'r "Arglwydd lefaru wrtho, fel y llefarai gŵr wrth ei gyfaill," yr hwn gan hyny a fuasai yn sicr o wybod y peth pe buasai yn wirionedd;—i'r athrawiaeth gael ei dysgu ganddo i feibion Israel—fod y Proffwydi yn dal ac yn dysgu mai Jehovah ei hun oedd y Messia am yr hwn y rhag-ddywedent. Dylent ddangos hefyd, fod y genedl Iuddewig yn addoli Jehovah dan y caracter neu'r *gwahaniaethad* o Drindod o Bersonau—eu bod hwy yn ei addoli ef felly *yn awr;* ac os nad ydynt, *pa bryd* y darfu iddynt, ac (os gwelir yn dda) *paham* y darfu iddynt ymadael a'r fath addoliad: ac yna i brofi allan o'r Testament Newydd, fod Iesu o Nazareth, yr hwn a ddywedir mai "dyn profedig gan Dduw" ydoedd, ac a gyfrifid gan bawb a'i gwelent mai dyn ydoedd yn wirioneddol, hyny yw, dyn a dyn yn unig o ran natur, ar yr un pryd mewn ystyr wirioneddol a phriodol yn Greawdwr nef a daear; iddo ef gyhoeddi ei hun i'r byd fel eu Creawdwr a'u Cynhaliwr; fod ei ddisgyblion y rhai a ymddiddanent ag ef ac weithiau a'i ceryddent, yn credu ei fod y cyfryw; ddarfod i'r Apostolion, ar ôl ei farwolaeth, bregethu'r athrawiaeth

hon i'r byd; yr hyn, pe yn wirionedd, a ellid ac a ddylid ei brofi allan o Actau yr Apostolion.

A chan eu bod yn dal, ddarfod i'r Creawdwr, yr anghyfnewidiol a'r anfeidrol berffaith, o ddeutu deunaw can mlynedd yn ol, ymgnawdoli, neu gymeryd arno natur dyn, a thrigo ymhlith dynion; ac wedi iddo fyw felly dros deng mlynedd ar hugain, i'w *natur ddynol* gael ei gosod i farwolaeth gan ddwylaw anwir; iddo wedi hyny gyfodi o feirw, ac esgyn i'r Nef, ac ei fod yn byw byth bythoedd, yn feddiannol ar natur ddwyfol ynghyd a natur ddynol wedi ei gogoneddu; dylent ddangos fod hyn oll mewn perffaith gysondeb âg anghyfnewidioldeb Jehovah. Ac yn ddiau y dylent ddangos hefyd fod yr athrawiaeth o Drindod o bersonau dwyfol, o gyd-râdd mewn gallu ac o gyd-dragwyddoldeb; y rhai a addolir weithiau ynghŷd, dan yr enw *Duw*, ac weithiau ar wahân, dan yr enwau, *Tad*, *Mab* ac *Yspryd*, ac etto nad ydynt ond un Bod; dylent ddangos, meddaf, nad ydyw hyn yn anghysondeb ac yn wrthuni, ac nad ydyw yn groes i'r rheswm ag y mae Duw wedi blannu ynom; eithr ei fod mor gytunol â rheswm ag ydyw y prawf a'r grediniaeth o fodoliaeth Bod Goruchaf yn *un* person, neu un bod deallawl; oblegid nis gall Duw wrth-ddyweud ei hun; hyny yw, nis gall ddywedyd un peth wrthym trwy natur a rheswm, a thrwy ddadguddiad dywedyd wrthym beth arall ag sydd yn groes i reswm. N.

ROBERT ROBINSON AR LYGRIAD CRISTNOGAETH GAN DRINDODWYR.

"Yn wyf yn dyweud, yn y lle cyntaf, ddarfod i Eglwys Rhufain ddwyn i mewn i Gristnogrwydd y drych-feddwl o luosogrwydd, a'i uno a'r drych-feddwl o Dduw. Y peth yr wyf yn ei feddwl yw hyn. Dysgodd Crist i'r Apostolion mai '*Un Duw sydd, a dim ond un*,' ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu. Parhaodd yr Apostolion hyd ddiwedd eu hoes, i ddysgu i eraill yr hyn y dysgodd Crist iddynt hwy, a chadwasant Undod Duw gyda'r gofal mwyaf, ac nid heb achos da am hyny. Yr oedd un Duw yn ddigon i bob addolwr, ac ni fyddai ychwanegu deng mil ddim ond eilun-addoliaeth. Ond beth wnaeth Eglwys Rhufain? Hi dafiodd i mewn i'r drych-feddwl am Dduw, luosogrwydd, hyny ydyw mwy nag un; ac y mae yn sylwad da a chyfiawn o eiddo ysgrifenydd Protestanaidd diweddar, 'Oni buasai i'r Diwygiad gael ei ddwyn oddiamgylch trwy ragluniaeth Duw pan y cafodd, buasai genym dduwiau ar dduwiau, duwiau ar dduwiau, a buasem wedi llwyr golli y gwir Dduw, yn y lluaws o dduwiau eraill.'

Yr oedd yn ddywediad o eiddo'r Apostol Paul, a thyna oedd cred eglwys foreuol Crist, 'I eraill, i'r cenhedloedd, y mae duwiau lawer ac arglwyddi lawer; eithr i ni, hyny yw, i ni Gristnogion, nid oes ond un Duw, y Tad, ac un Arglwydd, Iesu Grist.' Ond yn awr gellir dywedyd wrth Babyddion, y mae i chwi dduwiau lawer ac arglwyddi lawer, yn gymmwys fel y mae yn y byd paganaidd; eithr i ni Brotestaniaid nid oes——Ah! onid wyf wedi dweud gormod? Ni *ddylai* fod ond un Duw, ac un Cyfryngwr ac Arglwydd, Iesu Grist. Gofynwch i mi, feallai, pa fodd y daeth Protestaniaid yn ngafael hyn o wall? Mi ddywedaf i chwi beth wyf fi yn ei feddwl, fy mrodyr. Nid yw y dyb boblogaidd ynghylch Trindod ddim ond gweddill o'r hen eilun-addoliaeth Pabaidd; ac nid yw y drych-feddyliau cnawdol rhy

gyffredin ynghylch Tad, Mab, ac Ysbryd, rhanu y Duwdod yn bersonau, enwi adeiladau ac eglwysi mewn canlyniad i'r fath dybiadau, ddim ond math neu ymddangosiad o'r un halogedigaeth. 'Beth yw anwiredd Jacob? onid Samaria? A pha rai yw uchel-leoedd Judah? onid Jerusalem?'"

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. D. JONES, LLANGAN, AT IARLLES HUNTINGDON.

Syr.—Wrth gynnyg y darnau canlynol i ddarllenwyr yr *Ymofynydd*. caniatewch i mi ddywedyd gair neu ddau mewn perthynas i'r enwogion pa rai yr ydys yma yn cyfeirio attynt.

Offeiriad ydoedd y Parch. D. Jones, yr hwn oedd mewn agosach cysylltiad a'r Trefnyddion Calfinaidd nag a'r Eglwys sefydledig. Y mae yn bur adnabyddus ei fod ef yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd a dylanwadol a welodd Cymru erioed.

Selina, Iarlles Huntingdon, hefyd, a hynododd ei hun trŵy ei chrefyddgarwch a'i haelioni, a'r mawr zël a ddangosodd dros yr achos yr oedd Whitfield a'r Trefnyddion Calfinaidd yn llafurio i'w ddwyn ymlaen. Hi ddarfu sefydlu yr Athrofa gynt yn Nhrefecca at ddwyn i fynu weinidogion. Sefydlodd hefyd a gwaddolodd lawer o gapeli yn Nghymru a Lloegr, pa rai a elwir *Lady Huntingdon's Connexion*.

Ac y mae sefydliad Athrofäol *Cheshunt* yn ddyledus i'w haelioni. Nid oes le i ammau cywirdeb ei phroffes nac onestrwydd ei hamcanion. Dioddefodd lawer o wawd a gwrthwynebiad oddiwrth ei chyd-raddolion ac eraill. Y rhai hyny tebyg ydyw "ei gelynion" y rhai y sonia Mr. J. am danynt yn ei lythyr. Ond serch bod yr Arlwyddes yn credu yn gadarn mewn Etholedigaeth ddiammodol, fe ymddengys oddiwrth y llythyr, ei bod weithiau yn ammau nad oedd hi o'r nifer etholedig. Nid yw hyny ychwaith yn beth i'w ryfeddu: gan nad ydyw yn mhŵer yr athrawiaeth Galfinaidd i "fwrw allan ofn." Nid oes dim ond ffydd yn nghariad cyffredinol ac annherfynol Duw, a all roddi hyny o esmwythâd i'r enaid. Pa fodd bynag y mae'r geiriau o ddiddanwch a chydymdeimlad a welir yn niwedd y llythyr, yn arddangos brwdanwch teimladau yr ysgrifenydd hyawdl: y maent hefyd yn dwyn ar gôf i mi ddychymyg cyffelyb a eiddo Miltwn, yn ei "Goll Gwynfa;" sef ydyw, i Adda, pan welodd fod ei wraig wedi syrthio i ddamnedigaeth trwy fwyta o'r ffrwyth, yn y fan benderfynu bwyta o hono yntau o'r un ffrwyth; gan ei bod yn well ganddo fyned i golledigaeth gyda chydmar ei fynwes, na gorfod byw hebddi hyd yn oed yn Eden Baradwysaidd.

Ymddangosodd y Llythyr yn yr *Evangelical Magazine* am Rhagfyr, 1810, neu Ionawr, 1811. Nid wyf yn deall fod y Gân Saesnig, na'r Cyfieithad gan Iolo Morganwg, wedi ymddangos o'r blaen mewn un cyhoeddiad. Dyma'r darnau i chwi, fel y cefais i hwynt o law cyfaill.—Yr eiddoch,

N.

A LETTER FROM THE LATE REV. D. JONES, OF LLANGAN, TO THE COUNTESS OF HUNTINGDON, FROM THE 'EVANGELICAL MAGAZINE,' FOR DECEMBER, 1810, OR JANUARY, 1811.

"My dear and truly honoured Lady,—Thanks to your Ladyship for your kind favour which I received by yesterday's post. Dont be cast down; the Ark you are embarked in will never give up to the wave. Ride on, therefore, without fear. Though the billows may rage and foam, you will not be disembarked, 'till you are

brought safe to your desired port. If you think in earnest you will sink, I had rather go to the bottom with you than survive with your enemies. This is the very truth. But if we must sink, Heaven shall hear our Hosannas, and perhaps our Hallelujahs too, from the bottom of the mountains, and out of the belly of hell. Salvation shall be our song, and Heaven shall be our rest for ever.

"D. Jones."

The same Versified, but not in the Magazine.

"My dear and honoured Lady's kind favour's received,
And with sorrow I hear that your Ladyship's grieved;
But let faith be your comfort, and do'nt be cast down,
The Ark you're embarked in has never been known—
To shipwreck the soul it was commissioned to save;
A freight of such value can't yield to the wave.
The billows may foam and the tempests may rage,
But you'll not disembark, I will dare to engage,
'Till the dangers and perils you dread are all past,
And the Port of Salvation receive you at last.

"But if you must sink—to be saved I disdain—
For I ne'er will be found in your enemies' train.
I'd rather set sail for damnation with you,
Than be saved with a faithless heretical crew.
This is truth—very truth—beyond scruple or doubt,
And the glorious resolve shall reach Heav'n in a shout:
Hallelujas will soar, and Hosannas will yell,
From the mountains' low bottom and belly of hell;
Until Mercy confounded her banner shall raise,
And triumphant shall enter the courts of His praise.
There seated in glory without fear or favour,
Our song shall be rest and salvation for ever."

C.

Cyfieithad o'r Llythyr, ar fesur cerdd, gan Iolo Morganwy.

"I'Arglwyddes garedig derbyniais dy rodd,
Dawn mawr dy hynawsder, yn beth wrth fy modd;
Tost iawn gan fy 'nghalon yw clywed dy gwyn,
Ond rho di'th holl gred yn yr Arch sy'n dy ddwyn.

"Hi saif ar y don, dan y gwyntoedd yn syth,
Ar graig yn dorredig, ni welir hi fyth;
Boed uchel ystormydd cynddeiriog y don,
Bydd diogel er hynny pob enaid yn hon.

"Nid ofnaf i't soddi—boed hyn iti 'n wir,
Trwy'r moroedd tymestlog ai'n gadarn i dir;
Ai trwy'r holl beryglon a'th gylchant mor faith,
I borthladd y gwynfyd, yn llawen dy daith.

"Ond os rhaid i't soddi, a myned i lawr,
Ar ol dy fawrhydi ni 'rosaf un awr;
Cael rhan yn dy dynged, gwell gennyf fi, clyw,
Na chyda'th elynion gael aros yn fyw.

"Beth bynag dy ran, boed i minnau'r un hawl,
Wyf gyda thi'n foddlon i fyned i ddiawl.
Clyw'r Nef ein gorfoledd, Hosanna'n ddifraw,
A bloedd Haleluia bydd fallai yn ddidaw.

"Dan waelod y mynydd, yn eigion y tân,
Ym 'herfedd pwll uffern derchafwn y gân;
Ac yna'n ddibaid Iechydwriaeth ein llef,
A'n gorphwys gwynfydig dros fyth yn y Nef."

E. W.

TRIOEDD CERDD.

(*Parhad o Tudal* 140).

32. Tri rhaid cerdd: godidog amcan, godidog synnwyr, a godidog ddeunydd.

33. Tri harddwch synwyr: eglurdeb, cywirdeb, a newydd-deb.

34. Tri amrywiaeth cerdd: amrywiaeth myfyrdod, amrywiaeth iaith, ag amrywiaeth colofn cerdd.

35. Tri amrywiaeth bann: amrywiaeth cyhydedd, amrywiaeth cynghanedd, ag amrywiaeth accen.

36. Tri gwychder cerdd: hygaredd, hyawdledd, ag ehofnder.

37. Tri melusder cerdd: hawsder deall, trynwyf iaith, a mwythusber fyfyrdod.

38. Tripheth blodeuog ar gerdd: ystyrbell iaith, goleuber synwyr, a chywrain gelfyddyd.

39. Tripheth a wnant flas ar gerdd: amrafaelu iaith, amrafaelum yfyrdod, ag amrafael gainc ar fesur.

40. Tri chyttundeb a ddylai fod ar gerdd: rhwng amrafaeliant a chyfundeb, rhwng rhagoriaith a chyffrediniaith, a rhwng rhyfeddol a gwir.

41. Tripheth a bair cerdd yn dda: ei llwyr fyfyrio, ei mynych chwilo, ag ollol ymegnio.

42. Tri phriodoldeb cerdd: ei maint, ei hamcan, a'i hachos.

43. Tair rhagoriaeth canu: iawn fydryddu, iawn ddyfalu, ag iawn ymddwyn.

44. Tri rhagoriaeth mydr: cywreindeb, rhwyddineb, ag accen ber.

45. Tri chynnorthwy iaith: trefn, nwyf, a chyffelybair.

46. Tair llafarwedd y sydd ar y Gymraeg: y Wenhwyseg, y Ddeheubartheg, a'r Wyndodeg. A chyfiawn ar gerdd ymarfer a phob un o'r tair yng nghymmysg, blith draphlith, yn ol barn ag awdurdod y prif feirdd.

47. Tair prif rywogaeth y sydd ar gerdd: mawl, galar, a dychan.

48. Tri anhepcor mydryddiaeth: colofn, cynghanedd, ag awdl.

49. Tri iawnder cerdd: iawn grebwyll, iawn drefn, ag iawn fydr.

50. Tri iawnder y sydd ar iaith: iawn eirioli, iawn ymddwyn, ag iawn lafar.

51. Tair swydd iaith: adrodd, cynhyrfu, a dyfalu.

52. Tripheth a bair iawn ddyfalu: iawn ddewis ar air, iawn leithyddu, ag iawn gyffelybu.

53. Tripheth y sydd ar iawn ddewis: y iaith oreu, y drefn oreu, a'r gwrthddrych gorau.

54. Tair prif rywogaeth y sydd ar fesur cerdd: cywydd, englyn, ag awdl.

55. Tair cynghanedd y sydd o brif ansodd: cynghanedd lusc, cynghanedd sain, a chynghanedd groes.

56. Tair prif amcan bardd herwydd pwyll a dyled: boddio Duw, lleshau dyn, a pharchu serchogrwydd.

57. Tair ansodd barddoniaeth: athrylith awen, barn wrth ddysg, a gwynfyd meddwl.

58. Tair colofn gwynfyd: goddef o foddlonrwydd, gobaith y daw, a chred y bydd.

59. Tair colofn dysg: gweled llawer, dioddef llawer, ag ystyried llawer.

60. Tair colofn barn: eon amcan, mynych arfer, a mynych gamsynied.

Y DANNEDD.

Sylwadau a chynghorion mewn perthynas i driniaeth y dannedd, wedi eu cymmeryd o wahanol awdwyr.—(O'r "Meddyg Teuluaidd.")

Y PETH cyntaf a mwyaf pwysig yw glanhad y geneu, yr hyn beth yn unig a rwystra glefyd. Yr unig achos o bob clefyd ag y maent yn ddarostyngedig iddo, yw gludiad a gweithrediad casgliad o'r defnydd hwnw arnynt ag y sydd yn gwneud i fynu weddillion ein bwyd a'n diod, yr hwn a weithreda trwy fyned dan droelliad llygredig, megis gwenwyn cuddiedig, neu ddefnydd ysol ar eu hadeiliad.

Ni chyfyd clefyd byth pan gedwir y dannedd yn lân a rhydd oddiwrth y fath ddefnydd. Saif eu hadeiliad yn gystal yn erbyn poethder yr haf, ac oerni y gauaf: yn erbyn cyfnewidau hinsoddau, amrywiaeth ymborth, ac hyd yn oed yn erbyn y clefydau i ba rai y gallai y rhannau ereill o'r cyfansoddiad fod yn ddarostyngedig o anian.

Gan mai hyn yw yr achos, y mae moddion rhagflaeniad yn amlwg a chyffredin; sef, ymgadw rhag casgliad o ddefnydd yr hwn a niweidia eu sylwedd; ac ar eu glanhad y mae yr holl ddirgelwch o'u cadw rhag clefyd yn gynnwysedig.

Un o'r dant-falion goreu a ellir ei ddefnyddio yw halen cyffredin; y mae yn hollol ddiniwed, fel ag y mae yn toddi yn hollol yn y poeredd, ac yn gwneud cwbl gymmaint o rugliad ag sydd angen er glanhau y dannedd, Y mae yr halltfaen hefyd yn gymmwysiad gwerthfawr, fel ag y mae yn darostwng ennyniad cig y dannedd, a symud y llys gwydn gludiog, yr hwn sydd barod i gasglu yn y genau y pryd hyny.

Y mae golosgedd coed hefyd, neu gneuen areca (a elwir yn gyffredin cneuen Betel), wedi ei losgi yn dda, a'i wneud yn falion teg, yn ddantlwch diniwed a rhagorol iawn. Canmolir hwn yn fawr gan Dr. R. Reece a Dr. Lind, ac ereill, fel dantlwch.

Dylai y genau mewn mabandod, cyn colli y dannedd amserol, gael ei lanhau yn wastad bob diwedydd, wrth hyn bydd gweddillion yr ymborth, y rhai a ymgasglasant trwy y dydd, yn cael eu hatal rhag gwneud eu hanrheithiad trwy y nos. Y mae dwfr twym yn wastad yn fwy cymmeradwy nag un oer er glanhau y dannedd, am ei fod yn well i ddadlaith gweddillion cyffredin ein lluniaeth.

Y mae Mr. Hertz yn ei draethawd ar y dannedd, yn dywedyd na ddylid defnyddio gwrychrugl ond pan fyddo y rhwd, mewn canlyniad i esgeulusdod, yn glynu yn rhy gadarn wrth y dannedd idd ei symud â dernyn o yspwng. Pan ddefnyddir gwrychrugl, dylid gofalu na byddo cig y dannedd yn cael ei gynhyrfu ganddo.

Yn gyffredin pan esgeulusir glanhau y genau, canlyna y ddannodd. Y mae y clefyd hwn yn gyffredin yn cyfodi oddiwrth ddinoethiad cangenau gleuyn y dant i'r awyr oer, neu i ddefnydd llym, mewn canlyniad i bydrni. Y mae yn cael ei achosi yn aml, pa fodd bynnag, gan ennyniad y bilen a wrthwisga y dantdwll, mae y dant yn y fath achos wedi dyrchafu ychydig, yn anaml yn bwdr, yn boenus iawn i gyffwrdd ag ef, ac yn cydfyned â phoen gwrthneidiol, yr hwn yn fynych a gyrhaedda i'r dannedd amgylchiadol. Y mae y fath olaf yn terfynu yn gyffredin mewn ffurfiad o grawn.

Pan fyddo y dant yn bwdr, y mae ei dynu allan, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yn addas, yr hyn, pan ei gwneir yn iawn, sydd yn cydfyned â llawer llai o boen na phang angerddol o'r ddannodd.

Pan fyddo yn brofiadol fod gwaethygiad y dant yn ymddibynu ar ansawdd y corff, nid yw ei symudiad ar bob achlysur yn gymmwys, gan ei fod yn debygol iawn y cymmerai yr un gweithrediad afiachus le mewn dant arall. Y mae yn dyb ffynedig, y llygra dant drwg y nesaf ato; ond yn yr achos yma, gallai fod yn foddion i gadw y lleill yn iach.

Pan fyddo y ddannodd yn tarddu oddiar ennyniad, yn mha achos y mae y dant yn gyffredin yn iach, dylid cynnyg ei wella trwy dynu gwaed o gig y dannedd trwy oleod neu graffiniad, yr hyn gyda defnyddio y meddyginiaethau rhyddhaol a chwysol canlynol, a fydd yn debygol o symud yr achos.

Fel carthiadydd cymmerwch ddail senna, dwy ddram, gosodwch mewn pedwaran o beint o ddwfr berwedig dros

hanner awr, yna hidlwch, ac ychwangcwch Halen Epsom, hanner wns. Tair llonaid llwyfwrdd idd ei gymmeryd bob dwy awr, hyd oni weithio. Fel chwysbair cymmerweh o falion y cyfogwraidd, (*Ipecacuan*) tri gronyn, neu y chwyshalen o ddeg i ugain gronyn mewn ychydig o ddwfr twym. Dylai y claf orwedd rhwng y gwrthbanau mewn crys gwlanen, a chymmeryd mor gynted ag y deehreuo ef chwysu, ryw ddiod glaiar, bob yn ychydig, yn fynych; megis pottes teneu neu dê Bohê.

Pa fodd bynag, os bydd y clefyd yn parhau yn gyndyn, gellir gosod cymmrwd pothellu tu ol i'r clust, a mynychu y cratliniad a gosodiad y goleuod.

Gellir doti creulonder y poen yn mhob achos trwy gymmwysiad halen bywiol awyraidd a'r ewsglyn, ar naddlin. Dylai y genau gael eu golchi allan yn gyntaf â dwfr claiar, i symud unrhyw ddefnydd ysol a allai fod yn aros yn ngheudod y dant. Y mae gosod pelen o gamphur a hunllad, yn ngheudod y dant, yn gyffredin yn rhoi esmwythad; gellir defnyddio olew perlys, teim, a phelydr Yspaen. Cau allan yr awyr, trwy lanw ceudod y dant â chymmysgedd o lud mastic a chwyr gwyn, neu ag ychydig naddlin, nid yn unig a atal ddychweliad y ddannodd, ond yn fynych a rwystra fynediad yn mlaen bydrni.

Gwerthir trwyth dan yr enw o *Sylweddlyn Perry rhag y Ddannodd*, yr hwn trwy ei osod wrth y dant poenus ar naddlin, yn gyffredin a rydd esmwythdra uniongyrchol, yr hon yw y feddyginiaeth fwyaf effeithiol rhag y ddannodd, ag y sydd wedi cael ei ddatguddio.

Pan fyddo eig y dannedd yn afiachus, dylent gael ei golchi yn araf, yn dufewnol gystal ag yn allanol, bob boreu, neu dair gwaith yr wythnos, â rhanau cyfartal o drwyth gwraidd rhatani a dwfr, trwy gyfrwng dernyn o yspwng. Gwna hyn trwy gydrwymo a chryfhau eig y dannedd, nid yn unig y dannedd yn fwy sefydlog yn eu lleoedd, ond hefyd a'n diogela rhag pydrni, a'r ddannodd. Gellir rhuglo y dannedd hefyd yn araf a'r un yspwng gyda thrwyth tenenedig rhatani, a gorchuddio ei arwyneb â golosgedd darparedig eneuen areca.

MARWOLAETH DUG WELLINGTON.

Y MAE'R gongl a ganiatoir i hanesyddiaeth gyffredinol, mewn cyhoeddiad bychan fel yr *Ymofynydd*, o angenrheidrwydd yn gyfyngedig iawn. O herwydd hyny nid ydym wedi bod yn allnog i gofnodi digwyddiadau a dynent sylw y wlad yn gyffredinol, mor llawn neu mor fynych ag y dymunem. Nid yw y marwolaethau a'r byr-gofiantau a gyhoeddwyd genym o bryd i'w gilydd yn dyfod yn gwbl dan yr un rheol. Cyhoeddiad crefyddol yn benaf yr amcenir yr *Ymofynydd* i fod.

Y mae pob *gwir* dystiolaeth a roddir, pa un ai yn nghlwrs bywyd neu ar wely angeu, o blaid rhinwedd a gwerthfawrogrwydd gwirioneddcrefyddol, yn werth coffa am dano. Ac y mae dymuno gweled coffadwriaeth o'r marw ar dudalenau cyhoeddiad ag oedd ef yn hoff o hono yn ei fywyd, yn beth naturiol ddigon i gyfeillion a chydnabod. Ond dylai yr ysgrifenwyr fod yn neilldnol bwyllog a gofalus pa beth a ddywedont; nid yn unig ei fod yn wirioneddol, ond ei fod yn gymmwys ac o werth i'w gyhoeddi.

Nid gwiw ceisio rhoddi hynodrwydd i ddynion o fywyd anghyhoedd. Eto yn nwylaw ysgrifenydd medrus ac o garacter adnabyddus dichon gwneuthur coffadwriaeth y cyflawn o fuddioldeb cyffredinol. Na'n cam-ddealler. Ni fynnem mewn un modd ymddangos yn anniolchgar i'n gohebwyr caredig. Yr ydym, ar y cyfan, wedi cael achos da i ymddiried i'w callineb fel ag i'w geirwiredd yn y matter cyfeiriedig; ac yr ydym yn hyderus nas bydd yn achos tramgwydd iddynt, cin bod fel yma yn cyhoeddi cin barn, y dylai hysbysiadau marwolaethol a anfoner i'w cyhoeddi, fod yn fyr, oni bydd amgylchiadau neilldnol yn galw am ymhelaethu.

Y mae bywyd a marwolaeth dynion cyhoeddus yn perthyn i'r cyhoedd. Ac y mae digwyddiadau a marwolaethau ag sydd yn tynnu sylw y wladwriaeth

yn gyffredinol, yn galw am le a sylw yn yr *Ymofynydd*. Braidd, credwn, y maddeuai ein darllenwyr i ni am fod yn ddistaw am beth sydd wedi bod ac yn parhau i fod yn destun siarad cyffrous a dwys-deimladol trwy'r wlad ben bwy gilydd.

Y newydd mwyaf cynhyrfus y mis diweddaf, a'r hwn braidd a lyngcai i fynu bob newydd arall, oedd ynghylch marwolaeth Dug Wellington, yr hyn a gymerodd le y 14eg o Fedi, yn *Walmer Castle, Kent*, lle yr oedd efe yn trigo er y 26ain o Awst. Yr oedd yr hen wron enwog yn tynnu at ei 84 mlwydd oed. Er hyny daeth ei farwolaeth ef yn annisgwyliadwy. Nid oeddid wedi clywed son ei fod yn glaf; ac ymddengys nad oedd ef ei hun yn teimlo fod ei ymddattodiad mor agos—bu farw yn dra sydyn. Dydd Llun (y 13eg), cymerodd ei ymarferiad corfforol (*exercise*) fel cynt, a'r noson honno aeth i'w orphwysfa, i bob ymddangosiad, mewn iechyd da. Tranoeth, yr oedd wedi addaw cyfarfod a Iarlles Westmoreland ar yr Orsaf, yn Dover; ond pan ddaeth tranoeth (dydd Mawrth y 14eg), rhwng chwech a saith o'r gloch y boreu, cafwyd ei fod wedi cael ei darw gan afiechyd, yr hwn a ddaeth mor alaethus, nes gorfod galw am gynorthwy meddygol. Yn fuan wedi hyny cafodd bangfa drom, yr hon a barhaodd beth amser; ac fe'i dilynwyd gan amryw eraill. Collodd y Dug ei deimladau tua naw o'r gloch, ac arosodd felly hyd nes y bu farw, ugain munud wedi tri. Mor esmwyth y bu efe farw, fel braidd y credai y gwyddfodolion, er fod yr arwyddion o guriad y galon wedi pallu eisioes yn y ddwy fraich, hyd nes daliwyd gwydr-ddrych o flaen ei enau, pan y cafwyd fod y Dug wedi llwyr ymadael a'i fuchedd hon. Yr oedd ei fab ieuengaf, Arglwydd Charles Wellesley a'i fonedd-iges yn bresenol. Ei fab hynaf, y Dug presenol, oedd yn digwydd bod yn absenol yn Germany.

Prydnawn yr un diwrnod, ehedodd y newydd o'i farwolaeth trwy Lundain, gan beri syndod a galar cyffredinol. Ar ymddangosiad y newyddiaduron boreu dydd Mercher, symudwyd pob amheuaeth.

EI YRFA A PHRIF DDIGWYDD-IADAU EI FYWYD.

Arthur Wellesley, Dug Wellington a anwyd yn y flwyddyn 1769, yr un flwyddyn ag y ganwyd ei wrthwynebydd enwog, Napoleon Bonaparte. Ond y mae cryn ansicrwydd ynghylch dydd a lle ei enedigaeth. Ei rieni oeddent Iarll a Iarlles Mornington, o *Dangan Castle*, swydd *Meath*, yn yr Iwerddon. Westley neu Wesley, ac nid Wellesley, ydoedd enw y teulu hyd yn ddiweddar; yr oeddent o wadoliaeth Saesnig, ac ymddengys eu bod yn perthyn i'r enwogion John a Charles Wesley, sefydlwyr y Methodistiaid Wesleyaidd. Dan yr enw Arthur Wesley yr ymunoddd y Dug a'r fyddin.

Y mae yn sicr mai'r Iwerddon oedd *gwlad* ei enedigaeth. Y dyb fwyaf gyffredin ydyw, mai ar y laf o Fai, 1769, yn *Dangan Castle*, y ganwyd ef; eraill a haerant mai yn *Mornington House, Dublin*, ryw bryd cyn y 30ain o'r Ebrill blaenorol; gan seilio eu haeriad ar y ffaith ei bod wedi ei gofnodi yn Eglwys St. Pedr, *Dublin*, "i Arthur, mab yr anrhydeddus Iarll a Iarlles Mornington gael ei fedyddio yno Ebrill 30, 1769, gan Arch-diacon Isaac Mann." Y Dug ei hun a gadwai y 18fed o Fehefin—dydd Brwydr Waterloo—yn lle dydd ei enedigaeth.

Yr oedd Arthur Wellesley yn un o naw o blant. Yn 1771, collodd ei dad, pan yn ieuange iawn. Ond yr oedd ei fam yn foneddiges o synwyr a chyneddfau eryf. Anfonwyd Arthur i Goleg Eton, lle, er dwys-ofal i'w fam, nis gwnaeth y cynnydd hyny mewn dysgeidiaeth a ddysgwyliai hi oddiwrtho. Aeth oddiyno i fod dan addysg *brivate* yn *Brighton*; a chwedi'n anfonwyd ef i Goleg Milwraidd *Angers*, yn Ffraingc, lle y bu yn myfyrio am chwe' mlynedd, dan yr enwog Pignerol. Mawrth 7 1787, pan yn 18 mlwydd oed, derbyniodd ei *gommission* cyntaf, fel Lumanwr (*Ensign*), yn y 73 *Regiment* o wŷr traed. Yn mhen ychydig symudodd oddiyno i *Regiment* o wŷr meirch. Fel hyn, trwy ei ddylanwad teuluawl, esgynodd yn rhwydd ac yn fuan, risiau arferol y swyddedigaeth filwraidd. Yn 1790, gyda ei ddyfod i oedran, trwy yr

un dylanwad, anfonwyd ef i'r Senedd Wyddelig fel aelod dros Fwrdeisdref *Trim*. Am dano y pryd hyn, ni choffeir dim, ond ei fod yn dilyn bywyd afradlawn, ac wedi syrthio i ddyled.

Pa fodd bynag, yn mis Mai, 1794, ni a'i cawn, pan yn 26 mlwydd oed, yn *Golonel* ar y 33 *Regiment*; ac am y tro cyntaf, ac mewn swydd o gyfrifoldeb uchel, yn cychwyn gyda'i *Regiment* i ymuno â Dug York, yn y rhyfel oeddid bryd hyny yn ei gario ymlaen yn erbyn y Ffrangcod, yn Holland a'r Isel Diroedd. Am y ryfel-daith honno, a'i chanlyniadau aflwyddiannus, dwys y canodd hen fardd Tirogwr :—

" Oedd irad gweled arwain,
Dros fôr o Frydain Fawr,
Ei gwŷr i diroedd dyrus,
'Dan ofal gelyn cyfrwys,
Lle lladdwyd miloedd, dyma'r modd,
Yn lluoedd ar hyd y llawr.
Mam na thad, mwy ni thaw;
Newydd 'draw ddaeth i dre',
O Holland; pwy na wylai,
Yn lli' wrth goffa'r lle!
Mawr rif y meirwon,
A mwy sydd yn gaethion,
Trwm fu'r tro, yr ochr draw,
Dan ddwylaw gelynion.
Ni fyddant mwy mor ffol,
A rhoddi dynolryw,
I'w gosod dan dywysog,
Ail Fradog euog yw,
Na ddel ymlaen i'w ddilyn,
Un fyddin yn ei fyw."

Rhaid addef bod y Bardd i ryw fesur yn defnyddio gormodiaith. Ond y mae hanesiaeth yn tystio fod gwall-drefn i'w ryfeddu i'w ganfod trwy yr oll o'r rhyfelgyrch anffodus hwnw. Y mae'n debyg i Colonel Wellesley ddysgu wrth weled gwallau eraill, yr angenrheidrwydd o barotoi a llywyddu byddinoedd mewn modd mwy trefnus a synwŷrol. Yn yr hysbysiadau a wnaed ar y pryd, coffeir gyda chanmoliaeth am ei fedrusrwydd, a'i wroldeb ef a'r 33 *Regiment* dan ei lywyddiad, yr hon a wasanaethai y swydd beryglus, ond anrhydeddus o *rear guard* yn yr enciliad trychinebus.

Yn y gwanwyn, 1796, derbyniodd ei *regiment* orchymyn i hwylio i *Bengal*, yn yr India Ddwyreiniol; ond nis gallodd efe fyned gydâ hwynt o herwydd afiechyd. Ymddengys nad ocdd ef yn mwynhau iechyd da yn y tymor hyn o'i einioes; yn mhen amser, modd bynag, daeth ei gyfansoddiad i fod mor wydn a chaled fel ei gelwid *The Iron Duke*. Wedi iddo wella rywfaint, llwyddodd i oddiweddyd ei filwyr yn y *Cape of Good Hope*. Cyflawnwyd yr hyn oedd yn ôl o'r fordaith; a glaniodd Arthur Wellesley yn Calcutta, Chwefror, 1795; i ddechreu o ddifrif yr yrfa honno o wasanaeth i'w wlad, yr hon sydd wedi gwneuthur ei enw mor glodfawr. Cofier mai adrodd ffeithiau yr ydym ni; nid cyfiawnhâu rhyfel ymosodol na chlodfori rhyfelwyr llwyddianus. Ond wrth ffurfio barn am garacter Dug Wellington fel rhyfelwr, nid yw ond tegwch i gadw mewn côf, ei fod ef yn gydwybodol yn ei hystyried yn ddyledswydd i wasanaethu ei wlad. Ac nid oes un amheuaeth, na fu ei ymdrechiadau ef yn foddion arbenig i gadarnhâu ac ychwanegu cyfoeth ac awdurdod Prydain Fawr yn yr India. Trwy gymeryd *Seringapatam*, daeth ef i lywyddu materion gwladwriaethol a milwraidd y *Mysore*, a chwedi'n y *Mahrattas*. Dangosodd ei fod yn meddu ar alluoedd a chymhwysderau i'r swydd. Ac am fnddugoliaeth *Assaye*, cafodd ei wneuthur yn *Knight Companion of the Bath*, a derbyniodd diolchgarwch y Brenin a'r ddau Dŷ o Barliament.

(I'w barhâu.)

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CLADDEDIGAETH DUG WELLINGTON.

Trwy orchymyn y Frenhines gohirir y gladdedigaeth hyd nes byddo'r Senedd wedi ymgyfarfod yn mis Tachwedd, er mwyn cael caniatad y ddau Dŷ o Barliament, i wneud yr angladd yn un mawreddog a chenedlaethol. Cleddir y Dug with ochr Nelson yn Eglwys Saint Paul, Llundain. Yn y cyfamser y mae'r corff yn aros yn *Walmer Castle*, dan ofal *Captain's Guard of Honour*, a osodwyd yno trwy orchymyn y Frenhines.

RHANIAD SWYDDAU'R DUG.

Iarll Derby sydd wedi ei appwyntio yn *Warden of the Cinque Ports;* Arglwydd Combermere, yn *Constable of the Tower;* ac Arglwydd Hardinge, i fod *y Commander in Chief.*

Y CYFANDIR.

Nid oes dim newydd o bwys o'r Cyfandir. Y mae Lewis Napoleon wrth ei fodd, yn derbyn annogaethau a deisyfiadau iddo wneuthur ei hun yn Ymerawdwr. Tebyg mai dyna brif ddiben ei ymdaith ddiweddar trwy ddeheudir Ffrainge.

AGORIAD Y REILFFORDD O ABERTAWE I GAERFYRDDIN.

Dydd Gwener, Medi 17, oedd ddiwrnod mawr yn Nghaerfyrddin. Yr oedd paratoadau anghyffredin wedi cael eu gwneud i roesawi *Directors* y *South Wales Railway Company* a'u cyfeillion; y rhai oeddent yn ol y disgwyliad i agor y Reilffordd mewn modd teilwng o'r amgylchiad. Am haner awr wedi deuddeg, y gerbydres a adawodd orsaf Abertawe, yn cynnwys o leiaf 500 o deithwyr; am haner awr wedi dau cyrhaeddasant orsaf tref Caerfyrddin, lle yr oedd Maer a Chorfforaeth y dref a boneddigion lawer eraill yn barod i'w groesawi. Yna ffurfiwyd yr orymdaith, ag aeth tuag 850 i'r Farchnadfa, lle yr oedd gwledd ysblenydd wedi ei pharatoi.

O achos gwrthwynebiad y *Government Inspector*, ni ddefnyddir y Reilffordd hon at *draffic* parhaus, am ychydig o wythnosau.

Marwolaethau.

Bu farw ar yr 11eg o'r mis diweddaf, yn 48 mlwydd oed, Sarah, gwraig David Williams, Llwyngareg, phlwyf Llanwinio. Bu yr ymadawedig yn glâf dros ysbaid pedair blynedd neu ychwaneg, a thros y rhan fwyaf o'r amser hynny yn analluog i wneud defnydd o'i haelodau; roedd yn aelod gyda'r Undodiaid yn Rhydyparc er yn ieuango, a mwynhaodd lawer o gyssur oddi wrth ei syniadau crefyddol yn ei hafiechyd; ac yn unol a'i dymuniad pregethodd y Parch. Titus Evans yn ei hangladd, a chladdwyd hi yn Rhydyparc. Gadawodd briod a phump o blant i alaru ar ei hôl.

T. E.

Ar y nawfed o Awst diweddaf, yn Cwm Rhondda ger Pontypridd, Mr. James Davies, gynt o Gastell Maelgwyn, yn Sir Benfro a Gwaith Haiarn Rumney, yn Sir Frycheiniog, *Accountant*; ond er ys 25 mlynedd o'r man lle y gorphennodd ei yrfa, yn 72 mlwydd oed. Yr oedd y trengedig yn filwr glew yn Myddin Credinwyr yr unig wir Ddduw, ag yn adnabyddus iawn trwy'r Deheudir. Bwriedir ar gais amryw o'i hen gyfeillion rhoi byr gofiant o hono yn yr *Ymofynydd.*

Borau dydd Gwener, Awst 13eg, Mr. David Jones, Red Cow, Llandilo, wedi cystudd byr o dri diwrnod, yn 53 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn parchus, hawddgar a siriol, a theimlir galar cyffredinol ar ei ol gan bawb a'i adwaenent.

CYFAILL.

Nos Fawrth, Awst 24ain yn Mhentregwenles, Lettice Harries, yn 11 mlwydd oed wedi dioddef cystudd a phoen dirfawr, yn amyneddgar dros naw diwrnod. Yr oedd Lettice yn un o ysgolheigon ffyddlonaf yr Onenfawr, ac anfynych iawn y byddai hi yn absenol o'r cwrdd a'r ysgol. Ond er ei holl ymdrech, ei sêl, a'i diwydrwydd, fe'i cymerwyd ymaith braidd yn ddi rybudd. Yr oedd ganddi gof hynod o dda, fel y medrai adrodd penodau a salmau er ys blynyddau, yr oedd wedi enniil cariad a serch yr Eglwys yu gyffredinol.

Fel rhosyn teg yn nechreu Mai
Agorai 'n hardd flaguryn;
Ond awel oerllyd drosti ddaeth
A gwywo wnaeth yn sydyn.

Nid ydyw tegwch pryd ond gau,
Yng ngwyneb angau ingol;
Aeth Lettice fach yn wael ei gwedd
I'w bedd yn anamserol.

Yn meddwl beunydd byddem ni
Fod iddi hi hir ddyddiau;
Ond, O! rhowd terfyn ar ei hoes,
Gan ing a loesion angau.

Bydd cofio 'i hymadroddion ffraeth,
Yn myn'd fel saeth i'm calon;
Pob mwyniant aeth yn llwyr ar goll—
Fe ddarfu 'm holl gysuron.

Mae'n bywyd yn ansicir iawn,
Fel cysgod wnawn ddiflanu;
Mi wela'r dydd pan cwyd o'r bedd;
Ar rasol wedd yr Iesu.

Ei Hewythr GALARUS, &c.,
RHYDDERCH FARFGOCH.

Pentregwenles.

Barddoniaeth.

CAN GORFOLEDD CRISTNOGAETH UWCH BEN BEDD "ANGHRIST."

"Yn y dydd hwnw y bydd Un Arglwydd, a'i enw yn Un; a theyrnasoedd y byd yn eiddo iddo, ag yntau yn eiddynt."

Hen anghrist ofergoel! fe ddarfu am hon:
Ei delwau difywyd a briddwyd o'r bron,
Fal cysgod enciliodd, ymguddiodd ei gwawr,
A syrthiodd colofnau'i hallorau i'r llawr.

Mewn gwarth ei chanlynwyr sy'n edrych yn ôl—
Ar amser aeth heibio, ei dreilio mor ffôl;
I'm clustiau rhyw sisial ddaw oddiwrthynt hwy,
Yn dweyd nad ymgrymant i ddelwau byth mwy.

Er nifer y dulliau o ddelwau a ddaeth,
Er gormes hunanol y marwol a'u gwnaeth;
Er honni galluoedd hanfodol pob un,
Cawd allan nad allent ymgynnal eu hun,

Pan ddaeth haul cyfiawnder i entrych y nen,
Ei lewyrch ysplenydd ddysgleiriodd trwy'r llen;
Gan ddweyd wrth addolwyr gau dduwiau mhob lle,
Un Duw sy'n bodoli a dim ond y Fe.

Un mawr hollbresenol o fythol barhâd,
Un roddodd ei hunan yn Dduw ac yn Dad;
Celfyddyd ni ddyry efelwch i w lun,
Dychymyg ni ddengys fwy na'i fod yn Un.

Iuddewon, Cenhedloedd, pob lliw a phob iaith,
A glywaf yn cydymhyfrydu'n y gwaith;
Gan ddweyd, er ein cadw mewn tywyllwch yn hir,
Ni gawsom o'r diwedd wybodaeth o'r gwir.

Creawdwr a Noddwr y ddaear a'r nef,
Yng Nghrist a eglurwyd—yn awr iddo Ef;
Sanct! Sanct! Haleluia orhoia'r holl fyd,
Mae'r Duw Hollalluog yn Dduw ini gyd.

Cwmdu. Dewi Dawel.

PENNILLION.

Mr. John Davies, o'r Onllwyn, a glywai fod D. L. Moses, yn bwriadu ymfudaw i Awstralia, ac a ganai iddo fel y canlyn.

(Tôn.—"Nutmeg and Ginger.")

I wlad yr aur, mewn gair i gyd
Sy 'leni, yn mryd rhyw lawer;
A ydyw 'm cyfaill yn ddi-os
Yn myned dros y dyfnder?—
Ai ni wna'th lanw'r meddwl hwnw,
Echrysionrwydd Gweilgi garw—
Sydd a'i donnau yn ymdynnu—
Dwed fy ffrynd, ai mynd a fyni,
Neu ynte siarad gwag, disail,
Na oddef haul, yw hynny?—
Yn fy annerch, nid fy ymdrech
Yw dy feio'r hyn a fynech;
Gwell diferyn i'th ddifyru,
Na rhyw lwyth o sen i'th lethu;
Os yw dy feddwl ar y fan,
Yn gyfan ti wnai gefnu.

Os ffwrdd yr ai, dymuno 'r wyf
Na b'o na chlwyf na cholled,
It' ar dy daith, tros foroedd maith,
Teimladau llaith, na lludded:—
Wrth wel'd ei dorchawg donnau'n dyrchu,
Pan yn hwyliaw ar yr heli,
O hen Walia am Awstralia,—
Bydd ar y Llyn ryw syn olygfa,
Na welaist ti, er dechreu'th fyd,
Na minnau hefyd ymma!
Dos, cyn dechreu ar dy siwrnai,
At Ragluniaeth—cais eu goreu;
Hi fedr arwain, pan f'o arwaf,
Y Llong a'i llwyth tros genlli eithaf;—
Mae'r Trai a'r Llanw yn ei llaw,
A'r *glanio* draw'n ddianaf!

Pan, o Fryn Amman yma'r lan
Hyd Onllwyn, fan ar fynydd,
'Nol treulio gauaf, ddechreu hâf,
Cyrhaeddai attaf newydd—
Dy fod, Gyfaill, yn ymad'el—
Nid hawdd gennyf dd'wedyd, *ffarwel*!
Waith bu rhyngom radd o glwmmu,
Wrth wneud âg amgylchiadau'r Pwys-dŷ;
Er mai dieithraid, yn ddiâu,
O'em ni ein dau, cyn hynny.
Mae fy Lletty inneu 'leni,
Mewn lle hynod rhwng Clogwyni;
Hinsawdd iachus, hylon, hwylus,
Wna i'm deimlo'n dra chysurus;
Ac ni chwenychwn byth, tra b'wy',
Am arall, mwy tymmherus.

Dymunaf itti lwyddiant llawn,
O foreu i nawn dy fywyd!
Na fydded mwy i'th fwrdd ond mêl
Yn ngwlad Awstrelia hyfryd!
Mae fy awen wedi f' arwain,
Fal y gweli, yn f' ysgrifen,
Os anmherffaith, mae'n ddiweniaith;—
Nid o gyrrhaedd rhwgau hiraeth,
Dan ffrwyth teimladau brau a briw,
Fal ydyw o ysgrifiaeth.—
Wrth derfynu, os y gwnai drefnu
I'r for-daith hir-faith hon, heb fethu,
Tydi a'th deulu oddi yna,
A'th gyd ddynion, o'r un dynfa,
Ow cofiwch geisio aur mwy pur
Nac sydd yn nhir Awstralia!

Ioan Dafydd.

ATTEB I'R PENNILLION BLAENOROL.

(Tôn.—"Rhyfelgyrch Belisle.")

Dos lythyryn, dros pob clogwyn,
Hyd drwyn yr Onllwyn draw;
Adyro annerch, trwsiad traserch,
Mewn llannerch sydd gerllaw;—
Cei Ioan Dafydd acw'n dyfal
Arwilio'r anial rôs,
A'i awen barod, gweua'n burion
Bennillion, ar ben nos:—
Diolchus boddus bydd, am ffrwyth yr awen rydd;
D'wed iddo, 'i ganiad, ô'i derbyniad,
Mewn mâd roesawiad, sydd;
Er, i raddau, iddi roddi
Fy mron mewn cynni caeth,
Am fy' mod ar fin ymadael
A'm diwael fro, pan daeth.—
Sef anwyl fro, ddifeg, fy ngenedigaeth, deg,
Sy'n llawn rhagorion i'r ymmylon,
A'i chwai awelon, chweg,
Yn llonni natur pob creadur,
Breswylia 'i hawyr hi,
A'i chyfiawn ddeddfau gwir, a goreu,
Ynt freintiau uchel fri.

Ond mae rhyw ddiles erwin rodres,
A gormes, yma i'w cael;
A rhyw drawsion yn bydr oesi,
Gan fynnu gwasgu'r gwael:—
Fry yn uwchder mawr ëangder
Eu balchder, maent yn byw;
Ac ni wnant osod, gweision isod,
Yn rhifnod *Dynol-rgw!*
Maent hwy o'u pen i'w traed, o wir wahanol waed,
Fel pê i'w llunio yn ddillynach,
Amgenach priddyn gaed;
Diau urddolion diarddelant
'R oll, o anwylblant NEB,
Sy'n gorfod gweithio, i gasglu 'u heiddo,
Nes mynych fwydo 'u mhêr!—
Gan amlder gweithwyr dydd, trwy'r oll o'n Rhandir rydd,
Llafurwr diddig a lluddedig,
Yn anmhrisiedig sydd!
Wrth gasglu cyfoeth—tost y cofion—
I ryw uchelion raî,
Yn isel prisir ef, a'i lafur,
Fe'i clymir yn y clai!

Wrth wel'd y mawrion yn ymwrio;
Egnio ginio'r gwan,
Y ceisiaf ddidol f'hun o'u canol,
I fwy dymunol man;
Os caf orphwysfa rhag creulondra,
Ar draeth Awstralia draw,
Fe dal, yn hollol, y daith odiaethol,
Am bob afreidiol fraw:—
I ddyn, yr un yw IOB, ar sychdir maith a môr,
O'i drugareddau, at ein rheidiau,
Dros deithiau, dyry stôr;
Ei blantos ydym, ac einioes gennym.
(O'i law a'i rym a roes,)
Yn chwilio 'n ddyfal fodd i'w chynnal,
Trwy ein anwadal oes.
Os cyfyd rhwystrau blin—os rhuthra'n chwern yr hin,
Nes drylliaw 'n castell ryw noson dywell,
Ar draethell—chwerw'r drin!
Pe boddwn yno, a myn'd i angho'
Cyn lanio yn y wlad,
A ddylwn wylo, a minneu'n syrthio
Yn nhyner ddwylo NHAD?

Wel dyna swmiad o'm rhesymau,
Dros gynnyg dechreu'r daith,
Ddau wyth o filoedd, o filltiroedd,
Dros gylchoedd moroedd maith;
Rhyw rif echryslon o beryglon,
Ar ysgwydd gwendon, gaf;
Ac ni erfyniaf, am un funud,
Cai'r hin o hyd yn hâf.
Er hynny, addaw wyf, am bob ocr naws, ceir nwyf—
Yn ol gresynu, ceir hynaws annedd,
A gwledd, am bob rhyw glwyf;
Am fôr ystormus, ceir hinsawdd iachus,
Mewn melus, foddus fan;
Lle ni chyrhaedda'r gwanc-gwn trawsa',
Esmwythdra gwirdda'r gwan.
Nid aur a'm denai'r dyn, i adaw 'm bro fy hun;
Ond amryw gysur a ofyn natur,
Na ranir yma'r un—
A dyna'm rheswm iti 'nghwlwm,
Yn hwyrdrwm yn ei hyd;
Ffarwel hen gyfaill! Tydi a gofiaf
Tra byddaf fyw 'n y byd!

DAFYDD L. MOSES.

At ein Gohebwyr.

Derbyniadau y Mis—T. Stephens; J. Jones; Rhydderch Farfgoch; T. Evans; Arthur O. Davies; C. Ayron; Dewi Dawel; a C. J. Marcross.

AGORIAD TY CWRDD NEWYDD Y CRIBYN, DYDD IAU Y 7FED O HYDREF.—Daeth yr hysbysiad yn rhy ddiweddar i ymddangos yn ei le priodol.

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.